CDLl

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol
## Adolygiad Cyntaf 2007 - 2022

## Cynllun Newydd
## Cytundeb Cyflenwi
## 1af Ebrill 2018 – 31ain Mawrth 2033

Cytunwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar 24ain Ionawr 2018
Y llinell amser ddiwygiedig a gytunwyd gan y Cyngor 21ain Mehefin 2018

Cytunwyd gan Lywodraeth Cymru 22ain Mehefin 2018

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio trwy e-bost ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn 01545**

# Cynnwys


**Rhan 1: Cyflwyniad a Chefndir** **1**

1.1 Cefndir 1

1.2 Y Cytundeb Cyflenwi 2

1.3 Preparation of the Replacement Plan 2

1.4 Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) Integredig / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) 3

1.5 Polisi Iaith Gymraeg 4

1.6 Archwiliad Annibynnol o Gadernid 4

**Rhan 2: Cynllun Cynnwys y Gymuned** **6**

2.1 Cyflwyniad: 6

2.2 Y broses o wneud penderfyniadau yn y Cyngor 6

2.4 Egwyddorion a Dulliau o Gynnwys y Gymuned 8

2.5 Disgwyliadau'r Ymgynghoreion 10

2.6 AC/AAS ac Asesiadau Priodol 10

2.7 Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 11

2.8 Camau Allweddol Paratoi'r Cynllun a Chyfleoedd i Gynnwys Pawb 11

**Part 3: Yr Amserlen** **13**

3.1 Amlinelliad 13

3.2 Sylfaen Tystiolaeth 15

3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) 17

**Part 4: Adnoddau a Rheoli Risg** **19**

4.1 Y Potensial i baratoi Cynlluniau ar y Cyd 19

4.2 Staffio ac Adnoddau Ariannol 20

4.3 Cyflawni'r Cynllun a Rheoli Risg 21

**Rhan 5: Monitro ac Adolygu** **22**

5.1 Cytundeb Cyflenwi 22

**Rhan 6: Cysylltiadau** **23**

**Atodiad 1: Deddfwriaeth, Cynlluniau a Strategaethau fydd yn dylanwadu ar y CDLl** **24**

**Atodiad 2A: Rhestr o Ymgynghoreion** **28**

**Atodiad 2B: Cynllun Manwl i Gynnwys y Gymuned** **35**

**Atodiad 3: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC)** **48**

**Atodiad 5: Proffil a Nodweddion y Gymuned** **49**

**Atodiad 6: Disgwyliadau'r Ymgynghoreion yn ystod bob Cam o'r Broses** **51**

**Atodiad 7: Asesu Risg** **54**

# Talfyriadau

| | |
|---|---|
| **AP** | Asesiad Priodol |
| **AMB** | Adroddiad Monitro Blynyddol |
| **C2020** | Y Strategaeth Gymunedol – Ceredigion 2020 |
| **CSC** | Cyngor Sir Ceredigion |
| **CCG** | Cynllun Cynnwys y Gymuned |
| **DdSD** | Ddarpar Safleoedd Datblygu |
| **CC** | Cytundeb Cyflenwi |
| **RhD** | Rheoli Datblygiad |
| **ARhC** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **AEI** | Asesu Effaith Integredig |
| **CDLl** | Cynllun Datblygu Lleol |
| **ACLl** | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| **ALlLl** | Asesiad Llesiant Lleol |
| **CLlLl** | Cynllun Llesiant Lleol |
| **MaG** | Materion a Godwyd |
| **FfDC** | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| **PCC** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **BGC** | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| **DCC** | Deddf Cynllunio Cymru 2015 |
| **AC** | Arfarniad Cynaladwyedd (gan gynnwys AAS) |
| **ACA** | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig |
| **AAS** | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **(AGAau)** | Ardaloedd Gwarchod Arbennig) |
| **CCA** | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| **GC** | Gweithgor Cynaladwyedd |
| **CGaT (CDLl) (Cymru) (Diwygio) Rheoliadau 2015** | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 |
| **CGaT (CDLl) (Cymru) 2005, fel y'i diwygiwyd** | Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cymru) (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, gan gynnwys newidiadau dilynol |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **CMCC** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| **CGC** | Cynllun Gofodol Cymru |

# Rhan 1: Cyflwyniad a Chefndir

## 1.1 Cefndir

Rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) baratoi ac adolygu'n barhaus Gynllun Datblygu Lleol [1] (CDLl, y Cynllun) ar gyfer ei ardal. Mabwysiadwyd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol ar gyfer Ceredigion ar 25ain Ebrill 2013. Mae'r CDLl a fabwysiadwyd yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn y Sir, a'i bolisïau ar gyfer eu rhoi ar waith rhwng 2007 a 2022.

Yn sgil mabwysiadu'r cynllun, rhaid i'r Cyngor ddal ati i adolygu'r materion a all effeithio ar ddatblygiad ei ardal neu'r gwaith o gynllunio'i ddatblygiad[2]. Ers mabwysiadu CDLl Ceredigion, mae ymarferoldeb cyflenwi strategaeth, polisïau a safleoedd y cynllun wedi'i fonitro'n flynyddol ar ffurf Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), a gyflwynir i Lywodraeth Cymru (LlC)[3].

Yn sgil cyflwyno trydydd AMB Ceredigion i Lywodraeth Cymru yn Hydref 2016, sbardunwyd adolygiad llawn o'r CDLl. Cafodd canfyddiadau'r adolygiad eu cyflwyno mewn Adroddiad Adolygu[4] [a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 26ain Hydref 2017]. Following consultation, in response to comments received, minor changes have been agreed by Council [reported to Council on 24th January 2018] and subsequently submitted to Welsh Government.

Mae'r Adroddiad Adolygu'n gosod cwmpas yr adolygiad yn glir a, ble mae angen gwneud newidiadau, beth sydd angen ei newid a pham, yn seiliedig ar dystiolaeth; gan gynnwys materion, amcanion, strategaeth, polisïau, profion cadernid a'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC). Mae'r Adroddiad Adolygu'n argymell bod y Cyngor yn mynd ati i baratoi CDLl newydd yn dilyn y drefn adolygu lawn. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ochr yn ochr â'r Cytundeb Cyflenwi CDLl drafft, sy'n nodi trefniadau i gynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses o Adolygu'r Cynllun.

Mae'r Cytundeb Cyflenwi hwn yn cynnig y dylai'r cynllun newydd ddechrau ar 1af Ebrill 2018 a dod i ben ar 31ain Mawrth 2033. Bydd cyfle pellach i wneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir.

Rhaid mynd ati i baratoi Cynllun newydd fel rhan o'r gwaith o sicrhau datblygu cynaliadwy[5], yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nes bod yr Adolygiad o'r CDLl wedi'i gwblhau a chynllun newydd wedi'i fabwysiadu, bydd cynllun presennol y Cyngor, sef Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion 2007 – 2022 yn parhau i ddarparu'r strategaeth ddatblygu a'r fframwaith polisi ar gyfer anghenion datblygu a chadwraeth y Sir

[1] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (DCPhG) (adran 62)
[2] Dan Adran 61 o DCPhG 2004
[3] fel bo'n ofynnol dan Adran 76 o DCPhG 2004
[4] Dan Adran 69 o DCPhG 2004
[5] Dan adran 2, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

hyd 31ain Mawrth 2022[6] neu pan fabwysiadir y Cynllun newydd[7], os bydd hynny'n digwydd yn gynt na hynny.

## 1.2 Y Cytundeb Cyflenwi

Y Cytundeb Cyflenwi (CC) hwn yw un o'r gofynion cyntaf wrth baratoi'r Cynllun newydd. Mae'n gytundeb ffurfiol rhwng Cyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), a Llywodraeth Cymru i sefydlu'r canlynol:

- **amserlen** mabwysiadu'r cynllun, sy'n ddiffiniol am y cyfnodau nes bod y cynllun yn cael ei adneuo, ac yn ddangosol am y cyfnodau wedi hynny;
- cydlyniad â'r broses o baratoi strategaethau a dogfennau eraill
- **yr adnoddau** yn nhermau'r gyllideb a'r staff mae'r Cyngor yn barod i'w neilltuo er mwyn paratoi'r cynllun;
- **Cynllun Cynnwys y Gymuned** sy'n gosod sut y bydd y Cyngor yn cwrdd â gofynion cyfranogi ac ymgynghori Rheoliadau'r CDLl wrth baratoi, adolygu a diwygio'r CDLl
- y dull y mae'r Cyngor yn bwriadu'i ddefnyddio i ddelio ag adborth y broses ymgynghori.

Wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflenwi ar gyfer y diwygiad cyntaf hwn o'r CDLl mi fydd y Cyngor:

- Yn paratoi CC diwygiedig;
- Yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd ar y CC diwygiedig;
- Yn diwygio'r CC yn sgil yr ymgynghoriad;
- Yn cael cymeradwyaeth y Cyngor i'r CC diwygiedig;
- Yn cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i'r CC diwygiedig;
- Yn cyhoeddi'r CC ynghyd â'r Adroddiad Adolygu ar ei wefan

Mae'r Cytundeb hwn wedi'i ddrafftio'n unol â rheoliadau a chanllawiau LlC, gan gynnwys: Cyfarwyddebau Ewropeaidd perthnasol; deddfwriaeth, polisi, cynlluniau a chanllawiau cenedlaethol; a chynlluniau a strategaethau rhanbarthol a lleol, yn ogystal â'r Cynllun Llesiant Lleol newydd. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Adroddiad Adolygu'r CDLl a chytundeb drafft y Cynllun Cyflawni ar draws cyfnod o chwe wythnos rhwng 2ail Tachwedd a 15fed Rhagfyr 2017. Ystyriwyd ymatebion gan y Cyngor ar 24ain Ionawr 2018 ac, o ganlyniad, mae mân newidiadau wedi'u hymgorffori yn hyn o beth Cytundeb Cyflawni. Cadarnhawyd newidiadau pellach, i'r amserlen, gan y Cyngor ar 21ain Mehefin 2018.

## 1.3 Preparation of the Replacement Plan

Wrth baratoi'r CDLl Newydd, bydd y Cyngor yn anelu at gyflawni'r amcanion canlynol:-

- Hwyluso Datblygu Cynaliadwy gan baratoi a monitro'r CDLl drwy broses sy'n integreiddio Arfarniad o Gynaliadwyedd (gan gynnwys gofynion Asesu Amgylcheddol Strategol) yn y broses o greu'r cynllun.

[6] Dyddiad terfynu'r Cynllun presennol yn unol ag Adran 62(3B) o DCPhG 2004, fel y'i diwygiwyd
[7] Ar fabwysiadu'r cynllun newydd bydd y cynllun presennol yn dod i ben yn awtomatig, fel y cyfeirir ato yn Adran 62 (9) DCPhG, fel y'i diwygiwyd.

- Seilio'r gwaith o gynhyrchu'r CDLl Newydd ar ymgysylltiad cynnar ac effeithiol â chymunedau, i ystyried amrywiaeth o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws barn eang ar y strategaeth a'r polisïau.
- Sicrhau integreiddiad o ran polisïau trwy gynhyrchu CDLl Newydd sy'n fewnol gyson ac sydd wedi'i integreiddio â phrif bolisïau a strategaethau eraill ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol (gan osgoi ailadrodd diangen).
- Sicrhau dull cyflym ac ymatebol o greu'r cynllun, gan gyhoeddi amserlenni ar gyfer y gwaith paratoi, llai o fersiynau drafft cyn mabwysiadu'r cynllun, a monitro ac adolygu strategol rheolaidd fel bod y cynlluniau'n adlewyrchu newidiadau yn y Gymru sydd ohoni.
- Paratoi CDLl diwygiedig sy'n strategol, yn gryno ac yn nodedig yn y modd mae'n gosod sut y bydd Ceredigion yn datblygu ac yn newid, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng lleoedd, gan gynnwys ar draws ffiniau gweinyddol, yn ogystal ag osgogwyr newid.
- Sicrhau datblygu cynaliadwy, gan roi ystyriaeth i ofynion seilwaith, yr adnoddau sydd ar gael, ymarferoldeb, a ffactorau'r farchnad.

Dwy ddogfen allweddol y CDLl yw'r Cynllun Cyn Adneuo a'r Cynllun Adneuo.

Bydd y Cynllun Cyn Adneuo (a adwaenir hefyd fel y Strategaeth a Ffefrir) yn cynnwys:

- y Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys Gweledigaeth, materion strategol, nodau ac amcanion, polisïau allweddol, monitro targedau a dangosyddion, lleoliadau bras ar gyfer cyflenwi anghenion datblygu cynaliadwy, a dehongliad gofodol o'r strategaeth);

Bydd y Cynllun Adneuo'n cynnwys:

- polisïau datblygu ar gyfer yr ardal gyfan wedi'u mynegi mewn modd generig lle bo modd, gan gynnwys polisïau sy'n seiliedig ar destunau;
- dyraniadau tir ar raddfa fawr;
- polisïau a chynigion ar gyfer ardaloedd allweddol o ran eu newid neu'u diogelu;
- cyfiawnhad rhesymegol cryno i esbonio polisïau a darparu arweiniad ar gyfer eu gweithredu
- map cynigion daearyddol (gyda mapiau wedi'u mewnosod lle bo'n briodol).

## 1.4 Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) Integredig / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae Arfarniad Cynaliadwyedd yn orfodol ar gyfer CDLl Newydd[8]. Mae'r AC yn ymdrin ag effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y CDLl. Rhaid bod y CDLl Newydd hefyd yn destun asesiad amgylcheddol [9]. Mae

[8] dan adran 5(2) a 5(4) Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) (Rheoliadau AAS) 2004

[9] (Rheoliadau AAS 2004, 5(2) a 5(4))

Canllawiau Llywodraeth Cymru[10] yn nodi mai cynnwys gofynion Rheoliadau AAS yn yr AC fyddai orau. Bydd yr Arfarniad Cynaladwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn chwarae rhan bwysig o ran arddangos bod y CDLl Newydd yn un cadarn, drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Mi fydd yn gymorth i gyfiawnhau'r polisiau ar sail resymegol. Mae gofyn sgrinio a chynnal asesiadau priodol[11] i sefydlu a ydy'r Cynllun yn debygol o gael effaith niweidiol sylweddol ar safleoedd a ddiogelir gan Ewrop, megis Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu safle RAMSAR. Cynhelir asesiad sgrinio ar gyfer CDLl Newydd i ddechrau, ac yna asesiad priodol os oes angen.

## 1.5 Safonau Iaith Gymraeg

Bydd y broses o ddiwygio'r cynllun yn cydymffurfio'n llawn â Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor, gyda trefniadau cyfarfodydd, cynlluniau, tystiolaeth ategol, gwybodaeth gyhoeddedig, gohebiaeth a dogfennau yn y ddwy iaith fel bo'n briodol ar ffurf copi caled, ar y We ac yn electronig.

## 1.6 Archwiliad Annibynnol o Gadernid

Cysyniad sylfaenol y system Cynllun Datblygu Lleol yw bod y cynllun yn gynnyrch proses drylwyr a chynhwysfawr o ymgysylltu â'r gymuned, lle mae'r awdurdod cynllunio wedi mireinio'r opsiynau i gynhyrchu'r hyn mae'n ei ystyried yn gynllun Cadarn. Tybir felly bod y Cynllun Datblygu Lleol yn un Cadarn oni bai bod tystiolaeth i'r gwrthwyneb yn dod i'r amlwg yn ystod yr Archwiliad.

O ganlyniad bydd angen i'r rhai sy'n gwrthwynebu ddangos pam nad yw'r cynllun yn un Cadarn. Anogir pawb sy'n cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod eu sylwadau'n ymwneud â'r Profion Cadernid.

Ar ran Llywodraeth Cymru, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n cynnal Archwiliad Annibynnol. Cyfrifoldeb yr Arolygydd penodedig yn ystod yr Archwiliad fydd ystyried Cadernid y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gyfanrwydd. Mi fydd Arolygwyr yn ystyried gwrthwynebiadau unigol, ond byddant yn gwneud hynny ar sail y modd y mae'r rheiny'n mynd i'r afael â Chadernid cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol.

Swyddogaeth yr archwiliad yw asesu p'un ai y cydymffurfiwyd â'r gofynion paratoi a ph'un ai ydy'r CDLl a gyflwynwyd yn bodloni'r tri phrawf cadernid canlynol:

**Prawf 1:** **A ydy'r cynllun yn addas?** h.y. a ydy hi'n glir bod y CDLl yn cydweddu â chynlluniau eraill?);

**Prawf 2:** **A ydy'r cynllun yn briodol?** ((h.y. a ydy'r cynllun yn addas ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?);

**Prawf 3** **A fydd y cynllun yn cyflenwi** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?

[10] Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Argraffiad 2 (Awst 2015)
[11] Rhan 6, Pennod 8 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

Ceir mwy o wybodaeth am y Profion Cadernid ar wefan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio[12]
Yn dibynnu ar raddfa'r newid a osodir yn y Cynllun Adneuo, bydd yr Archwiliad yn canolbwyntio ar un ai fersiwn 'gyda'r newidiadau wedi'u nodi'[13] o'r Cynllun mabwysiedig, neu, os bydd y Cynllun wedi'i ddiwygio'n llwyr[14] neu Gynllun Newydd wedi'i adneuo, fersiwn lân o'r Cynllun newydd a ddefnyddir ar gyfer yr archwiliad.

Rhaid i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun ddangos sut mae'r profion cadernid wedi'u bodloni. Yn ystod yr archwiliad o'r cynllun newydd, disgwylir y bydd yn destun craffu mwy trylwyr na'r cynllun mabwysiedig, gyda mwy o bwyslais ar y dystiolaeth sylfaenol o ran ymarferoldeb y strategaeth, y polisïau a'r safleoedd a ddyrannwyd. Bydd argymhellion yr Arolygydd yn sgil archwiliad annibynnol yn orfodol.

[12] 'Archwilio Cynlluniau Datblygu Lleol: Canllawiau Gweithrefnol (Awst 2015)' http://planninginspectorate.gov.wales/?skip=1&lang=cy
[13] h.y. gyda newidiadau i'r testun wedi'u hamlygu gyda ffont trwm / llinell trwyddynt
[14] Cynigir y strategaeth gyda goblygiadau o ran holl bolisïau/dyraniadau'r cynllun

# Rhan 2: Cynllun Cynnwys y Gymuned

## 2.1 Cyflwyniad:

Mae gofyn bod y Cyngor yn gweithio gyda chyrff rhanddeiliaid ac yn ymgynghori â'r cyhoedd wrth baratoi'r CDLl. Mae Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gwblhau'r broses CDLl Newydd o fewn tair blynedd a hanner a hanner o gychwyniad ffurfiol (e.e. cadarnhad y Cytundeb Cyflawni).

Disgwylir y bydd camau olaf y broses CDLl, hynny yw, o'r Archwiliad o'r CDLl (a gynhelir gan Arolygydd Cynllunio annibynnol) a chyflwyno adroddiad terfynol, hyd at Fabwysiadu'r CDLl, yn cymryd 40 wythnos.

Mae'r ACLl yn bwriadu gwneud y defnydd gorau o'r strwythurau ar gyfer cynnal deialog parhaus gyda chynrychiolwyr croestoriad o'r gymdeithas yng Ngheredigion, sydd eisoes wedi'u sefydlu dan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion, a thrwy'r grŵp hwn, nodi cysylltiadau â phrif randdeiliaid.

## 2.2 Y broses o wneud penderfyniadau yn y Cyngor

[15]Bydd y Cyngor llawn, sy'n cwrdd yn chwarterol ac yn cynnal sesiynau ychwanegol arbennig fel bo angen, yn penderfynu ynghylch y CDLl a'i gynnwys arfaethedig ar adegau allweddol o'r broses, yn dilyn argymhellion gan y Cabinet, sy'n cwrdd bob pythefnos. Bydd y Cyngor yn gwneud y penderfyniadau terfynol ynghylch cynnwys y cynllun ar bob adeg allweddol o broses baratoi'r CDLl ac ar adegau, wrth iddo gytuno ynghylch y strategaeth a ffefrir, bydd yn rhaid i'r Cyngor hepgor rhai o'r opsiynau a gynigir yn ystod y camau cyfranogi ac ymgynghori cyhoeddus Cyn Adneuo, er mwyn symud y broses yn ei blaen.

### Cynnwys y Gymuned

Mae'r Cytundeb Cyflenwi'n helpu i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion allweddol o ran cynnwys y gymuned trwy gydol y Broses Adolygu, a bod gweithgaredd o'r fath yn cael ei gynnal yn unol â Pholisi Ymgysylltu â'r Gymuned [16] a Phecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned[17] y Cyngor. Mae amcanion y Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned fel a ganlyn:

- Sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir ac ymrwymiad, ar draws y Cyngor gyfan, i ymgysylltu â chymunedau ynghylch penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Sefydlu dull cydlynol a chyson o ymgysylltu â'r gymuned yng Ngheredigion yn unol ag 'Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru'.
- Sicrhau bod yr ymgysylltu â'r gymuned yn gynhwysol trwy roi cyfle i bob un o drigolion y sir i fynegi'u barn, yn enwedig pobl a grwpiau all

[15] Dan Reoliad 14 o Reoliadau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) Cymru 2005
[16] (cymeradwywyd gan y Cyngor 13/12/2012)
[17] (cymeradwywyd gan y Cyngor 01/07/2012).

fod yn anoddach eu cyrraedd, a bod y farn honno'n cael ei chlywed a'i pharchu.

- Sicrhau bod ein cymunedau'n cael gwybod beth yw canlyniadau'r ymgysylltu.
- Gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a cheisio gwelliant parhaus.

Mae Cyngor Sir Ceredigion, trwy'r BGC, wrthi'n paratoi Cynllun Llesiant Lleol[18] a fydd yn gosod amcanion lleol a'r camau mae'n bwriadu'u cymryd i gefnogi dull cydweithredol o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion nhw.

Fel rhan o gylch gwaith y BGC, mae'r Cyngor eisoes wedi adeiladu partneriaethau a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio o fewn fframwaith sy'n caniatáu deialog gyda chynrychiolwyr cymuned gyfan Ceredigion - y cyhoedd, grwpiau buddiant a sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau â grwpiau 'mwy anodd eu cyrraedd', gan gynnwys pobl ifanc a phobl hŷn gydag anableddau.

Bydd y Cyngor hefyd yn ymdrechu i gynnwys y cyhoedd yn gyffredinol yn ogystal a'r grwpiau mwy anodd eu cyrraedd hyn ar adegau allweddol wrth baratoi'r Cynllun amnewidiol, fel bo'n briodol.

Defnyddir aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol yn ystod camau cynnar a chamau dilynol y broses i nodi gweledigaeth ar gyfer y CDLl ac i gynhyrchu opsiynau strategaeth (yn deillio o drafodaethau eraill gyda Rhanddeiliaid), er mwyn gwneud argymhellion i'r Aelod Cabinet, Gweithgor y CDLl a'r Cabinet ar y Strategaeth a Ffefrir, ac i sicrhau bod yna sylfaen tystiolaeth cadarn ar gyfer y CDLl.

Trwy gydol y broses bydd y ACLl yn gwneud defnydd o Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol fel ffocws wrth symud ymlaen. Ffurfir aelodaeth y grŵp hwn a Grwpiau Rhanddeiliaid eraill gan roi pwyslais ar berthnasedd gwybodaeth y rhanddeiliaid ym meysydd allweddol paratoi'r cynllun (e.e. tai, yr amgylchedd, manwerthu, twristiaeth, datblygu economaidd ac ati). Dewisir aelodau'r grwpiau o blith Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol[19], aelodau a swyddogion y Cyngor, ac yn fwy cyffredinol fel bo'n briodol.

Bydd gan Gynghorau Tref a Chymuned[20]– (gweler Atodiad 2A) ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod anghenion a barn eu cymunedau lleol yn cael ei chlywed.

## Cynnwys y Cyngor Llawn, y Cabinet a'r Aelod Etholedig Lleol

Cyn ac ar ôl bob cam o'r gweithgareddau cyfranogi ac ymgynghori ehangach, bydd Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl (gyda chynrychiolwyr o blith yr

[18] Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[19] sy'n ofynnol gan Reoliad 14 o Reoliadau 2005, fel y'i diwygiwyd
[20] wedi'u rhestru dan y rheoliadau fel Cyrff Ymgynghori Penodol

Aelodau etholedig a phenaethiaid a swyddogion gwasanaethau perthnasol yn bresennol) yn cwrdd i ystyried materion ac ymatebion. Yn dilyn hynny bydd ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Cabinet yn sylfaen i benderfyniad y Cyngor ar adegau allweddol wrth i'r cynllun fynd rhagddo. Y Cyngor Llawn fydd yn penderfynu'n derfynol ynghylch yr hyn y bydd yr ACLl yn ei gynnwys yn y Cytundeb Cyflenwi, y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo.

Ar wahanol adegau hefyd wrth i'r cynllun fynd rhagddo bydd angen i'r Aelodau gymryd rhan mewn sesiynau trafod amrywiol sy'n ymdrin â'r Cytundeb Cyflenwi hwn, y weledigaeth, opsiynau strategol/ y Strategaeth Anheddu a'r Strategaeth a Ffefrir, polisïau, a safleoedd penodol.

### Rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol a Swyddogion y Cyngor

Bydd y Cyngor yn sicrhau pob un o'i wasanaethau sydd â wnelo â'r CDLl yn chwarae rhan lawn ym mhroses baratoi'r cynllun.

Bydd y swyddogion yn ymwneud â'r broses trwy gyswllt beunyddiol, a hefyd trwy grwpiau'r BGC a sesiynau trafod amrywiol. Bydd y Grŵp Arweinyddiaeth a phenaethiaid gwasanaethau'n ymwneud â'r broses drwy strwythur y Cabinet ynghyd â'r Aelod Cabinet arweiniol a Gweithgor y CDLl.

Bydd Tîm Cynllunio Polisi yr Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn defnyddio Tîm Rheoli Datblygiad Ceredigion fel fforwm trafod defnyddiol i edrych ar anghenion gwasanaethau yn y dyfodol, ac opsiynau cynllun datblygu gyda swyddogion y Cyngor.

## 2.3 Egwyddorion a Dulliau o Gynnwys y Gymuned

### Egwyddorion

Bydd yr egwyddorion canlynol yn llywio dulliau'r Cyngor o gynnwys y gymuned wrth baratoi'r CDLl:

- Ymrwymiad – Bydd y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i'r gymuned gyfranogi ar adegau priodol o'r broses.
- Cynhwysiant – Bydd y Cyngor yn annog pawb sydd â diddordeb a phawb a allai gael ei effeithio gan y CDLl i gymryd rhan weithredol.
- Priodoldeb - Bydd y Cyngor yn ceisio cynnwys y gymuned trwy'r dulliau mwyaf priodol fel y'u pennir yn y ddogfen hon.
- Tryloywder a hygyrchedd – Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd ganddo ar gael i'r cyhoedd a bydd yn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn modd tryloyw ac agored.
- Atebolrwydd – Bydd y Cyngor yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgysylltu cymunedol gan geisio sicrhau y caiff yr holl randdeiliaid eu hysbysu ynghylch canlyniadau eu cyfranogiad.
- Cynhyrchedd - Bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio'r ymgynghori a'r ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau cymaint o gonsensws ag y bo modd ynghylch cynnwys y CDLl.
- Realistig – Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r broses yn ei deall a'u bod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei

gyflawni yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth berthnasol a chyfarwyddyd LlC.

## Cynnwys y Gymuned

Yn Atodiad 2B nodir yn fanwl amrywiol ddulliau o gynnwys y gymuned sy'n debygol o gael eu defnyddio wrth lunio'r cynllun. Defnyddir y Grŵp Rhanddeiliaid allweddol, yr Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl, Grwpiau Rhanddeiliaid eraill a fforymau trafod eraill fel bo'n briodol i gasglu gwybodaeth a safbwyntiau ac asesu adroddiadau. Ystyrir dulliau eraill a awgrymir hefyd. Mae'r dulliau penodol a ddefnyddir yn debygol o ddibynnu ar yr isod:

- y pwnc;
- pa gam o'r gwaith y bydd y Cyngor arno o ran llunio'r cynllun;
- blaenoriaethau'r ymgynghoreion
- yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor.

## Adborth

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod adborth ar gael cyn gynted ag y bo modd ar ganlyniadau'r ymgysylltu a'r ymgynghori trwy gydol y gwaith o lunio'r cynllun. Bydd adborth y Cyngor ar y ffurfiau isod fel bo'n briodol:

- Adroddiadau ar unrhyw benderfyniadau/diwygiadau a wnaed a'r rhesymau drostynt;
- Adroddiadau ar y camau nesaf ym mhroses paratoi'r cynllun;
- Cyfarfodydd ac ymgynghori dilynol fel bo angen;
- Gohebiaeth fanwl lle bo angen eglurhad neu ragor o ddeialog.

Os bydd rhywun yn cyflwyno deiseb yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd y Cyngor yn gohebu'n uniongyrchol â'r sawl a'i cyflwynodd o hynny allan. Bydd y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i godi ymwybyddiaeth a rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses o baratoi'r CDLl, gan gynnwys gwybodaeth ar y wefan, diweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg.

## Cyfathrebu

Bydd y Cyngor yn rhoi diweddariadau rheolaidd a chanlyniadau'r broses ar ei wefan. Bydd hefyd yn cadw mewn cysylltiad trwy gyfrwng cyfarfodydd a chyflwyniadau.

## Ymrwymiad i weithio'n ddwyieithog

Cynhelir proses y CDLl yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae'r canlynol yn hynod berthnasol:

- Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg ac os oes angen ateb personol, anfonir yr ateb yn iaith y llythyr gwreiddiol.
- Bydd pob llythyr safonol, ffurflen sylwadau, cylchlythyr a hysbysiad cyhoeddus yn ddwyieithog
- Bydd yr holl ddeunydd hysbysebu'n ddwyieithog.
- Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus.

## Dulliau eraill o gyfathrebu

Ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg darperir fersiynau print bras o'r dogfennau perthnasol os gwneir cais. Cyfeirir at hyn ym mhob dogfen gan:

'Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, fel print bras neu gefndir lliw, cysylltwch â'r tîm Polisi Cynllunio trwy e-bost, ldp@ceredigion.gov.uk neu dros y ffôn, 01545 572123 '.

Ar gyfer pobl gyda nam ar eu clyw mae modd gwneud trefniadau arbennig os gwneir cais i gynorthwyo gyda'r cyfathrebu; ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus mae cylchwifren i'w cynorthwyo ym mhrif Siambr y Cyngor ym Mhenmorfa, Aberaeron.

Ar gyfer pobl gyda phroblemau cyfathrebu eraill neu anawsterau dysgu bydd y Cyngor yn ceisio ymateb i ofynion penodol.

Ynghyd â'r ymgynghoriadau bydd cynnig cyflwyniadau / presenoldeb mewn cyfarfodydd priodol megis Lleisiau ar gyfer Cydraddoldebau Ceredigion a'r Fforwm Anabledd.

## Hygyrchedd

Cynhelir y cyfarfodydd mewn lleoliadau sy'n hygyrch i bobl gydag anableddau. Bydd pob dogfen gyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor.

## 2.4 Disgwyliadau'r Ymgynghoreion

Wrth ymgynghori â'r gymuned a chael y gymuned i gyfranogi mae'r Cyngor am weithredu mewn ysbryd positif er mwyn hyrwyddo barn gytûn ac osgoi creu disgwyliadau camarweiniol mewn perthynas â'r broses. Yn Atodiad 6 nodir disgwyliadau'r Cyngor mewn perthynas â'r ymgynghoreion (boed nhw'n gyrff ymgynghori neu'n aelodau o'r cyhoedd) yn ystod bob cam o broses llunio'r cynllun.

## 2.5 AC/AAS ac Asesiadau Priodol

Rhaid i'r Cyngor gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)[21] ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)[22] o'r CDLl Newydd. Nod yr AAS yw gwella perfformiad amgylcheddol y cynllun a darparu amcanion amgylcheddol strategol, tra bod yr AC yn ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd y cynllun, yn ogystal â'r effeithiau amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru'n cynghori mai ymgorffori gofynion Rheoliadau'r AAS yn yr AC fyddai orau.

Caiff Gweithgor Cynaladwyedd (GC) ei sefydlu a bydd hwnnw'n cynnwys grŵp o Gyrff Ymgynghori Penodol (gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW) a chynrychiolwyr cynaladwyedd cymdeithasol ac economaidd, a fydd yn gweithio ar y cyd â'r ACLl yn rheolaidd er mwyn cwrdd â gofynion yr AC/AAS ac Asesiadau Priodol mewn perthynas â'r CDLl. Hefyd, bydd arbenigwyr proffesiynol a chyrff sydd a wnelo â'r mater (o Grŵp Gweithredol Dyfodol Cynaliadwy'r BGC) yn cynorthwyo ar wahanol adegau fel bo angen, er enghraifft ar gyfer gosod cwmpas yr AAS ac asesu unrhyw effeithiau sylweddol tebygol y byddai gweithredu polisïau'r CDLl Newydd yn eu cael ar yr amgylchedd.

[21] Adran 62 (6a) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
[22] Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

## 2.6 Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

Gall fod angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer rhai testunau neu feysydd. Caiff y rhain eu paratoi ar y cyd â Rhanddeiliaid, a byddant yn destun AC/AAS ac Asesiadau Priodol[23] ac ymgynghori pellach a wneir, hyd y bo modd, ochr yn ochr â'r ymgynghori a wneir ar adegau allweddol o broses y CDLl. Bydd unrhyw ddogfen o'r fath yn destun ymgynghoriad 6 wythnos.

## 2.7 Camau Allweddol Paratoi'r Cynllun a Chyfleoedd i Gynnwys Pawb

Bydd yr holl ddogfennau sydd angen bod ar gael fel rhan o Gynllun Cynnwys y Gymuned ar gael ym mhrif swyddfa'r Cyngor, Neuadd y Sir, Penmorfa SA46 0PA, yn ystod oriau gwaith arferol. Cyhoeddir copïau o'r holl ddogfennau perthnasol yn adran CDLl gwefan y Cyngor.

Mae Camau Allweddol paratoi'r cynllun a'r cynigion parthed cyfranogiad y cyhoedd ac ymgynghori â'r cyhoedd trwy gydol y broses wedi'u crynhoi isod ac mae manylion i'w cael yn Atodiad 2B.

### Cyfranogi Cyn Adneuo (Rheoliad 14) (Atodiad 2B1):

Yn ystod cam cynharaf paratoi'r cynllun, sef y cam 'cyfranogi cyn adneuo', bydd y Cyngor yn cyflawni'r canlynol:

- Cyhoeddusrwydd yn y wasg a chyfryngau eraill er mwyn hysbysu'r cyhoedd yn gyffredinol ynghylch proses y CDLl, a reolir gan dîm Cyfathrebu'r Cyngor
- Anfon gohebiaeth uniongyrchol at bawb sydd yn y gronfa ddata, gan gynnwys Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol ac aelodau'r cyhoedd sydd eisoes wedi mynegi diddordeb yn y broses.
- Cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol, yr Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl, Grwpiau Rhanddeiliaid eraill gan gynnwys cynrychiolwyr cyrff ymgynghori perthnasol (Penodol a Chyffredinol fel bo'n addas) er mwyn canfod beth yw eu disgwyliadau a'u dyheadau mewn perthynas â'r cynllun a helpu i nodi materion, casglu tystiolaeth a llunio strategaethau amgen.
- Gall fod yna ymgynghori mwy cyffredinol i nodi safleoedd datblygu posib i gwrdd ag amcanion opsiynau strategaeth posib.

### Ymgynghori Cyhoeddus Cyn Adneuo (Rheoliad 15 ac 16) (Atodiad 2B2)

Cynhelir cyfnod ymgynghori chwe wythnos ar y ddogfen 'cyn-adneuo' a fydd yn cynnwys y strategaeth a ffefrir gan y Cyngor. Yna bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8), yr Aelod Cabinet, Gweithgor y CDLl a'r Gweithgor Cynadlwyedd (GC) yn bwrw golwg dros yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn awgrymu newidiadau. Bydd y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn ystyried ac yn cytuno ar unrhyw newidiadau pellach.

[23] Os yw'n anghenrheidiol

## Adneuo’r Cynigion yn Statudol (Rheoliad 17) (Atodiad 2B3)

Cynhelir cyfnod ymgynghori chwe wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau ar ôl Adneuo’r Cynigion yn Statudol, mewn perthynas â’r polisïau a’r safleoedd.

Bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8), yr Aelod Cabinet, Gweithgor y CDLl a’r Gweithgor Cynadlwyedd (GC) yn argymell safbwynt y Cyngor mewn perthynas â phob ymateb i’r ymgynghoriad – ystyriaeth gan y Cabinet a phenderfyniad gan y Cyngor Llawn i gytuno ar y Ddogfen i’w chyflwyno, safbwynt y Cyngor wrth ymateb i bob un o’r ymatebion i’r ymgynghoriad, ac unrhyw newidiadau â ffocws (cyfyngedig) a argymhellir.

## Cyflwyno’r CDLl i’w Archwilio (Rheoliad 22) (Atodiad 2B5)

Ar ôl Adneuo a’r ymgynghori dilynol caiff y CDLl ei gyflwyno ar gyfer Archwiliad gan Arolygydd Cynllunio annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru.

## Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23) (Atodiad 2B6):

Bydd yr holl ddogfennau sy’n ymwneud â’r Archwiliad o’r CDLl ar gael er gwybodaeth i bawb sydd a wnelo â’r mater a’r cyhoedd yn gyffredinol, a’r rhai sy’n ymwneud yn uniongyrchol â’r trafodion ffurfiol. Bydd cyfle i’r rhai sydd wedi gwneud sylwadau ‘fel bo’n briodol’ yn y cyfnod Adneuo i gael eu clywed gan yr Arolygydd. Rôl yr Arolygydd yw archwilio’r CDLl yn ei gyfanrwydd a’i brofi i weld a yw’n ‘gadarn’; ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a llunio argymhellion a rhesymau dros yr argymhellion hynny ar ffurf Adroddiad yr Arolygydd.

## Derbyn Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) (Atodiad 2B7)

Pan gaiff Adroddiad yr Arolygydd ei dderbyn, caiff y rhai sydd wedi gofyn am gael eu hysbysu eu hysbysu’n ffurfiol yn ei gylch, a chyhoeddir yr Adroddiad er gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr, ymgynghoreion, pawb sydd yn y gronfa ddata a’r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal â’r rhai a gymerodd ran ffurfiol yn yr Archwiliad Cyhoeddus.

## Mabwysiadu (Rheoliad 25) (Atodiad 2B8)

O fewn 8 wythnos o dderbyn Adroddiad yr Arolygydd, sy’n rhwymo’r Awdurdod Cynllunio Lleol, bydd y Cynllun yn cael ei adrodd i’r Cyngor ar gyfer ei fabwysiadu. Ar ôl ei fabwysiadu bydd y Cyngor yn cyhoeddi Hysbysiad Mabwysiadu yn unol â’r rheoliadau, a bydd yn rhoi cyhoeddusrwydd er gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr, ymgynghoreion, pawb sydd yn y gronfa ddata a’r cyhoedd yn gyffredinol i’r holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys Datganiad Mabwysiadu’r Cyngor a manylion yr Arfarniad Cynaladwyedd (gan gynnwys yr AAS) a’i ddylanwad ar y CDLl mabwysiedig.

# Rhan 3: Yr Amserlen

## 3.1 Amlinelliad

Ceir amlinelliad o broses paratoi'r Cynllun Newydd yn y siart llif isod:

Adroddiad Adolygu a Cytundeb Cyflenwi
↓
Cynnal ac adolygu'r sylfaen tystiolaeth
↓
Nodi a phrofi opsiynau strategol
↓
Ymgynghori Cyhoeddus Cyn Adneuo (gan gynnwys cyfranogiad AC/AAS)
↓
Adneuo'r Cynigion yn Statudol (gan gynnwys AC/AAS)
↓

Monitro ac Adolygu

Camau Diffiniol

---

Cwblhau'r Adroddiad Ymgynghori
↓
Cyflwyno'r CDLl i'w Archwilio
↓
Archwiliad Annibynnol
↓
Adroddiad Rhwymol yr Arolygydd
↓
ACLl yn Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio
↓
Mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig (Datganiad Mabwysiadu'r CDLl)
Mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig (Datganiad Mabwysiadu'r CDLl)

Adroddiad Monitro Blynyddol

Camau Dangosol

O ran proses y CDLl mae'r rheoliadau'n caniatáu amserlen dwy ran. Mae hynny'n rhoi hyblygrwydd wrth baratoi'r amserlen ac wrth adolygu'r camau diweddarach, pan fydd nifer a chymhlethdod yr ymatebion i'r cynllun Adneuo'n wybyddus. Felly mae'r amserlen yn dilyn fformat dwy ran, gweler Ffigur 3.1:

1. Adwaenir Camau 1- 6 fel Camau Diffiniol ac maent yn arwain at, ac yn cynwys y cam adneuo. Ystyrir bod y camau hyn dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor.

2. Adwaenir Camau 7-12 fel y Camau Dangosol. Bydd gan y Cyngor lai o reolaeth dros y broses yn ystod y camau hyn, sy'n dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer y sylwadau adneuo a dderbynnir, eu cymhlethdod, a gofynion yr Arolygydd o ran yr Archwiliad Annibynnol. Felly amserlen ddangosol sydd yna ar gyfer y camau hyn, a chaiff ei hadolygu ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad adneuo.

**Ffigur 3.1: Camau allweddol paratoi'r CDLI**

| **Camau Paratoi'r Cynllun** | | **Amserlen Ddiffiniol** |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyno Cytundeb Cyflenwi a gymeradwywyd gan y Cyngor gerbron Llywodraeth Cymru (Rheoliad 9)<br>Adolygiadau amserlen y cytunwyd arnynt gan y Cyngor | Ionawr 2018<br><br>Mehefin 2018 |
| 2 | Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r Cytundeb Cyflenwi | Mehefin 2018 |
| 3 | Cyfranogi Cyn Adneuo:<br>Ymgysylltu â chyrff penodol a chyffredinol er mwyn llunio strategaethau ac opsiynau amgen (Rheoliad 14) | Mehefin 2018 – Mai 2019 |
| 4 | Galw am 'ddarpar safleoedd datblygu' | Mehefin – Medi 2018 |
| 5 | Ymgynghori cyhoeddus cyn adneuo - Cyfnod ymgynghori 6 wythnos (Rheoliad 15) | Mehefin - Gorffenaf 2019 |
| 6 | Cloriannu'r sylwadau a dderbyniwyd a Pharatoi Dogfennau Adneuo | Gorffenaf 2019 – Ebrill 2020 |
| 7 | Adneuo'r CDLI a'r dogfennau perthnasol (Rheoliad 17) | Mai – Mehefin 2020 |
| | | **Amserlen Ddangosol** |
| 8 | Cloriannu'r sylwadau a dderbyniwyd a pharatoi dogfennau i'w cyflwyno | Mehefin - Rhagfyr 2020 |
| 9 | Cyflwyno'r CDLI gerbron Llywodraeth Cymru (Rheoliad 20) | Rhagfyr 2020 |
| 10 | Archwilio'r CDLI (Rheoliad 23) | Ionawr – Medi 2021 |
| 11 | Derbyn Argymhellion yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Hydref 2021 |
| 12 | Y Cyngor yn mabwysiadu'r CDLI o fewn 8 wythnos ar ôl derbyn argymhellion yr Arolygydd (Rheoliad 25)<br>[Yn disodli'r CDLI blaenorol yn awtomatig (rheoliad 2(19)(c))] | tachwedd – Rhagfyr 2021 |

Cynigir y dylid cynnwys 3 mis o ras yn yr amserlen arfaethedig, rhag ofn i bethau lithro'n ôl, i osgoi gorfod newid y Cytundeb Cyflenwi'n ffurfiol.

### AC/AAS ac Asesiadau Priodol

Mae ffigur 3.2 yn amlinellu camau allweddol arfarnu'r CDLl o ran AC/AAS a'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni'r camau hynny.

**Ffigur 3.2: Arfarniad Cynaladwyedd (AC) gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**

| Camau'r Broses AC/AAS | Amserlen |
|---|---|
| Adolygu polisïau a chasglu gwybodaeth sylfaenol, nodi materion sy'n ymwneud â chynaladwyedd a datblygu amcanion a dangosyddion AC/AAS | Tachwedd 2016 – Hydref 2017 |
| Ymgynghori â Chyrff Ymgynghori Penodol ynghylch yr Adroddiad Cwmpasu (ymgynghoriad 5 wythnos) | Tachwedd – Rhagfyr 2017 |
| Cyhoeddi AC/AAS o'r opsiynau strategol (ymgynghoriad 6 wythnos) | Mehefin- Gorffenaf 2019 |
| Adneuo'r AC gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol (gyda'r CDLl) (ymgynghoriad 6 wythnos) | –Mai - Mehefin 2020 |
| Cyhoeddi AC terfynol (gan gynnwys datganiad amgylcheddol) ar adeg mabwysiadu'r CDLl | Tachwedd – Rhagfyr 2021 |
| Monitro a gweithredu'r AC | Parhaus |

Yn ogystal â gofynion yr AC/AAS, bydd angen i'r ACLl ystyried a oes angen Asesiad Priodol ar y cynllun fel sy'n ofynnol dan Gyfarwyddeb 92/43/EC yr Undeb Ewropeaidd (Cyfarwyddeb y Cynefinoedd) – eglurwyd cefndir hyn eisoes yng nghyflwyniad i'r CC hwn. Yn yr un modd â'r AC/AAS ystyrir y gofynion o ran ARhC yn ystod pob un o'r camau allweddol uchod.

## 3.2 Sylfaen Tystiolaeth

Caiff y cynllun ei seilio ar dystiolaeth. Gwneir hyn gan ddefnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a data sydd ar gael eisoes, yn ogystal â chynnal neu gomisiynu ymchwil newydd os nad oes gwybodaeth ar gael, neu os yw wedi dyddio. Mae cam cyntaf proses y CDLl, sef y cam Cyfranogi Cyn Adneuo, yn ymwneud yn bennaf â sicrhau bod yr wybodaeth a'r ymchwil perthnasol ac angenrheidiol ar gael, neu'n cael ei gasglu. Yna bydd yr wybodaeth hon yn siapio'r modd y bydd y CDLl yn mynd rhagddo, o'r opsiynau yn ystod y camau cynnar hyd at y polisïau a'r cynigion manwl yn ystod y camau diweddarach.

Mae'r ACLl yn cydnabod pwysigrwydd edrych ar faterion tai ar y cyfle cyntaf fel bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael ar gyfer cynnal deialog cynnar, a bod yr holl opsiynau sydd ar gael yn cael eu harchwilio'n drylwyr.

Cynhaliwyd Asesiad o Farchnad Dai Leol Ceredigion yn 2016. Mae'r asesiad hwn yn darparu dealltwriaeth gyfredol o ddeinameg y farchnad dai yng Ngheredigion, gan gynnwys nodi unrhyw effeithiau y gall ardaloedd y tu allan i'r Cyngor (yn enwedig Siroedd cyfagos) ei gael ar farchnadoedd tai sy'n gweithredu o fewn y Sir.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r rhagamcanion o ran poblogaeth ac aelwydydd ac effaith y newidiadau, mewn perthynas â'r Cynllun presennol a'r Cynllun newydd.

Yn 2017, cynhaliwyd Asesiad Hyfywedd Strategol er mwyn ceisio penderfynu a all targedau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ddarparu'r Tai Fforddiadwy sydd eu hangen yng Ngheredigion; i ystyried dyraniadau'r Cynllun presennol ac i ba raddau y gall fod angen ail-ystyried y rhain ar sail hyfywedd posib; i sicrhau bod y dadansoddi (ac felly'r casgliadau) yn adlewyrchu'r goblygiadau polisi diweddaraf, ac i roi ystyriaeth i bryderon dilys y diwydiant datblygu lleol.

Yn ogystal, cynhelir Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn flynyddol, sy'n cynnwys adroddiadau ar gyfraniad safleoedd bach i'r cyflenwad tai, ac mae'r ACLl yn monitro caniatâd a safleoedd sydd ar y gweill.

Bydd yr holl wybodaeth hon yn gymorth i ystyried y materion tai (gan gynnwys cyflenwad, galw ac angen) sy'n debygol o godi o fewn y sir yn ystod cyfnod y cynllun.

Mae'r ACLl eisoes wedi cwblhau Arolwg Argaeledd Tir ar gyfer Tai fel rhan o broses paratoi'r CDLl. Roedd hwn yn asesu cyfraniad posib safleoedd bach, sydd heb eu dyrannu, i'r cyflenwad cyffredinol o dai a thir cyflogaeth ar draws y Sir. Mae'r ACLl wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r angen am dir cyflogaeth ychwanegol o fewn y Sir drwy gyfrwng Adolygiad Tir Cyflogaeth

Yn nhermau anghenion manwerthu'r Sir yn y dyfodol, mae Astudiaeth Galluedd Manwerthu wedi cael ei a wnaed ar y cyd â Chyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan adrodd yn 2017 ar ofynion mannau llawr manwerthu yn y canolfannau gwasanaeth trefol yn y dyfodol ar ran arwynebedd llawr manwerthu yn y dyfodol o fewn canolfannau gwasanaeth trefol.

Bydd angen diweddaru'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, a gwblhawyd yn 2016, fel bod y Cynllun Adneuo'n ystyried anghenion posib o ran dyrannu safleoedd yn ystod oes y Cynllun Newydd.

Ceir astudiaethau eraill hefyd y mae'r ACLl eisoes yn eu cynnal, a fydd yn gymorth i bwyso a mesur y materion a'r opsiynau dan sylw yn ystod y cam Cyfranogi Cyn Adneuo e.e. arolwg maint aelwydydd (blynyddol), monitro ymrwymiadau cynllunio preswyl a chyflogaeth (caniatâd cynllunio a gwblhawyd neu sydd ar y gweill – gan gynnwys y cam datblygu).
Mae darnau eraill o dystiolaeth a baratowyd yn ddiweddar neu sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd yn cynnwys:

1. Astudiaeth Capasiti Manwerthu Rhanbarthol
2. Adolygiad Tir Cyflogaeth ac Asesiad o Anghenion Economaidd
3. Arolwg o'r stoc o welyau
4. Asesiad Ynni Adnewyddadwy
5. Canlyniadau Monitro Blynyddol y CDLl
6. Ymchwil Caniatâd Tai
7. Adroddiad Cyflenwi Tai

Fel rhan o waith paratoi'r sylfaen tystiolaeth (yn ystod y cam Cyfranogi Cyn Adneuo), bydd y Cyngor yn adolygu addasrwydd ac ymarferoldeb y dyraniadau tir presennol, a bydd yn gwahodd datblygwyr a pherchnogion tir i gyflwyno **darpar safleoedd datblygu** y gellid eu cynnwys yn y cynllun, naill ai ar gyfer y canolfannau gwasanaeth neu ar gyfer canolfannau gwasanaeth penodol a dargedir. Dull o gasglu gwybodaeth yw hwn ac ni ddylid ei ddehongli fel ymrwymiad i gynnwys y safleoedd hyn yn y CDLl. Wrth gynnig safleoedd o'r fath bydd gofyn i ddatblygwyr a pherchnogion tir gyflwyno digon o wybodaeth fel bod modd gwneud asesiad cadarn o addasrwydd, cynaladwyedd, hyfywedd ac ymarferoldeb y safle. Caiff y broses ar gyfer cyflawni hyn ei llunio drwy ymgynghori â chyrff sydd a wnelo â'r mater yn gynnar ym mhroses paratoi'r cynllun.

Wrth greu sylfaen tystiolaeth y CDLl defnyddir amrywiaeth eang o strategaethau corfforaethol a chynlluniau cyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys rhai a grybwyllwyd eisoes yn y Cyflwyniad. Bydd deialog parhaus a chydweithrediad rhwng adrannau'n hanfodol felly e.e. yr adran dai a rheoli datblygu. Bydd yr ACLl yn ceisio gwneud y defnydd gorau posib o ffynonellau gwybodaeth cyfredol, gan gynnwys canlyniadau unrhyw ymgynghori diweddar lle bo hynny'n berthnasol (e.e. Cynllun Llesiant Lleol)

Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio data a gasglwyd gan gyrff eraill, er enghraifft, Rhagamcanion Poblogaeth ac Aelwydydd Llywodraeth Cymru ac Asesiad Lles y BGC 2017, a bydd yn gweithio gyda sefydliadau neu awdurdodau eraill i gydgasglu gwybodaeth os oes prinder gwybodaeth ar hyn o bryd, a gall fod angen ymchwil ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos mewn perthynas â materion trawsffiniol. Felly bydd yr ACLl yn dibynnu ar rannu gwybodaeth, nid yn unig rhwng ACLlau (yn enwedig ACLlau cyfagos o ran gwybodaeth/materion sy'n ymwneud â thai a chyflogaeth) ond gyda gweithgorau rhanbarthol a chenedlaethol hefyd).

Nid yw'r rhestr meysydd ymchwil uchod yn un gynhwysfawr, ac yn wir rhagwelir y bydd y sylfaen tystiolaeth ei hun yn datblygu wrth i'r broses CDLl fynd rhagddi.

## 3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)

Bydd y CDLl Newydd yn cynnwys digon o bolisïau a chynigion i ddarparu sail dros benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Fodd bynnag, bwriedir gwneud defnydd dethol o'r CCA i ddarparu mwy o wybodaeth fanwl ar y defnydd o bolisïau neu gyfarwyddyd safle-benodol ar y modd y defnyddir polisïau'r CDLl (yn enwedig o ran cynnig mwy o fanylion a chyngor technegol). Felly, bydd gan y CCA ran bwysig i'w chwarae o ran ategu'r strategaeth. Ni fydd y CCA

yn rhan o'r CDLl, ac ni fydd yn cyflwyno polisïau ychwanegol, ond bydd wedi'i seilio ar y cynllun a bydd yn gyson ag ef.
Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor Ganllawiau Cynllunio Ategol mewn perthynas â nifer o feysydd polisi, gan gynnwys:

- Canllaw Cynllunio Blaenau Siopau a Ffasadau Masnachol Aberystwyth, mabwysiadwyd Mai 2013
- Mannau Agored, mabwysiadwyd 24ain Ebrill 2014.
- Ardaloedd Tirwedd Arbennig, mabwysiadwyd 24ain Ebrill 2014.
- Tai Fforddiadwy, mabwysiadwyd 15ain Medi 2014.
- Ynni Adnewyddadwy, mabwysiadwyd 28ain Ionawr 2015.
- Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio, mabwysiadwyd 28ain Ionawr 2015.
- Asesiad Trafnidaeth, mabwysiadwyd 28ain Ionawr 2015.
- Safonau Parcio, mabwysiadwyd 28ain Ionawr 2015.
- Cadwraeth Natur, mabwysiadwyd 28ain Ionawr 2015.
- Y Gymuned a'r Gymraeg, mabwysiadwyd 23ain Mehefin 2015

Nodir y Canllawiau Cynllunio Atodol a fydd yn ofynnol ar gyfer CDLl Newydd Ceredigion wrth lunio'r ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo. Gall fod angen addasu'r CCA yn sgil newidiadau arfaethedig i bolisïau sy'n effeithio ar y CCA uchod.  Gan ystyried y materion adolygu a nodwyd hyd yn hyn, rhagwelir y bydd angen dileu neu ddiwygio'r CCA canlynol o leiaf:

- Tai Fforddiadwy
- Y Gymuned a'r Gymraeg
- Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

Gall rhai o'r CCA a restrir uchod gael eu cynnwys mewn CCA newydd ar faterion diweddar, gan ddefnyddio terminoleg a gydnabyddir yn genedlaethol, megis Seilwaith Gwyrdd.

Bydd y Cynllun Cynnwys y Gymuned yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned wrth gynhyrchu CCA mewn achosion lle mae'r cyfarwyddyd hwnnw'n deillio o'r CDLl.  Pan fydd y CCA yn hanfodol er mwyn deall y CDLl, bydd y gwaith paratoi ac ymgynghori mewn perthynas â'r CCA yn digwydd ochr yn ochr â'r CDLl; fel arall bydd y CCA yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus ar wahân, cyn iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

Ni fydd CCA y cynllun newydd, gan gynnwys y CCA a gafodd ei ddwyn ymlaen (gyda/heb ei addasu) yn cael ei fabwysiadu nes bod y Cynllun newydd wedi'i fabwysiadu.

# Part 4: Adnoddau a Rheoli Risg

## 4.1 Y Potensial i baratoi Cynlluniau ar y Cyd

Mae Gweinidogion Cymru newydd gyflwyno pwerau[24] i lywio'r broses o baratoi CDLl, sy'n gofyn bod dau awdurdod neu ragor yn gweithio ar y cyd i baratoi CDLl/CDLl newydd. Mae cynllun ar y cyd ffurfiol yn un cynllun ar gyfer dau neu fwy o ardaloedd awdurdod cynllunio lleol, a baratowyd o dan Gytundeb Cyflawni unigol ac mae angen mabwysiadu ar wahân gan bob Awdurdod sy'n cymryd rhan. Mae hyn yn cymharu â gwaith cydweithredol a wneir, trwy gytundeb, i fynd i'r afael â materion sy'n rhychwantu ffiniau awdurdodau cynllunio lleol ac i baratoi sylfaen dystiolaeth sy'n hysbysu mwy nag un CDLl. Byddai gwaith o'r fath yn rhan annatod o baratoi'r Cynllun ar gyfer ardal y cynllun, waeth a yw'n CDLl sengl neu ar y cyd.

Fel rhan o broses ddiwygio'r CDLl, ystyriwyd manteision ac anfanteision paratoi Cynllun newydd ar y cyd ffurfiol ag un neu ragor o awdurdodau cynllunio lleol cyfagos, yng nghyd-destun y posibilrwydd o gyd-lunio a chyd-amseru polisïau. Y man cychwyn ar gyfer hyn yw edrych ar gyd-lunio polisïau ochr yn ochr â chamau unigol paratoi'r Cynllun ym Medi 2017.

| **Awdurdod** | **Cam CDLl** | **Cyd-destun Rhanbarthol** | **Potensial i gyd-lunio Polisïau** | |
|---|---|---|---|---|
| | | | **Daearyddol** | **Statws y Cynllun** |
| Cyngor Sir Gwynedd | Mabwysiadu Cynllun ar y Cyd â Chyngor Ynys Môn Gorffennaf 2017 | Uchelgais Gogledd Cymru | Na | Na |
| CS Powys | Yn destun Archwiliad, ymgynghoriad 6 wythnos cyn Adroddiad yr Arolygydd | Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | Oes | Na |
| APC Eryri | Adneuo adolygiad ffurf cryno wedi dechrau Gorffennaf 2017 | Gogledd Cymru / 3 Parc Cenedlaethol | Na | Na |
| Cyngor Sir Gâr | Mabwysiadu 2014 Adolygu 2018 | Rhanbarth Dinas Abertawe | Na | Oes |
| Cyngor Sir Penfro | Yn disgwyl cyhoeddi Adroddiad Adolygu'r Cynllun tua diwedd 2017 | Rhanbarth Dinas Abertawe | Na | Oes |
| APC Arfordir Sir Benfro | Ymgyghoriad Strategaeth a Ffefrir wedi'i gwblhau | De Orllewin Cymru / 3 Parc Cenedlaethol | Na | Na |

[24] P(W)A 2015

Cyngor Sir Powys fyddai'r cysylltiad mwyaf rhesymegol yn nhermau gweithio ar y cyd o ystyried yr agenda gwledig a rennir, a'r ymrwymiad ar y cyd i Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, ond mae amseriad eu Cynllun nhw, gydag Adroddiad yr Arolygydd yn debygol o gyrraedd tua diwedd y flwyddyn hon, yn golygu nad oes modd sefydlu unrhyw drefniant ffurfiol yn y tymor byr i baratoi Cynllun newydd ar y cyd.

Mae awdurdodau eraill cyfagos yn cynnig llai o botensial o ran gweithio ar y cyd, am eu bod yn bartneriaid o fewn trefniadau cydweithredol economaidd gwahanol iawn. Mae dau awdurdod (sef Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Gâr) yn weddol agos o ran amseriad yr Adolygiad, ond ystyrir bod anfanteision y partneriaethau economaidd gwahanol, ynghyd â'r oedi ychwanegol a ragwelir o ran sefydlu trefniadau gweithio ar y cyd, yn mynd yn groes i unrhyw fanteision a geir o baratoi CDLl ar y cyd.

Gan ystyried bod yr awdurdodau cynllunio lleol hyn yn gyrff annibynnol, hunan-lywodraethol, gyda Chynlluniau Corfforaethol / Strategol a rhaglenni a fabwysiadwyd i fynd i'r afael â chyfleoedd , heriau a meysydd i'w gwella penodol, a bod angen, er mwyn i'r cynllun fod yn 'cadarn' ei fod yn cael ei baratoi'un unol â'r dogfennau penodol Sirol hyn, un pryder sylweddol yw y byddai unrhyw Gynllun newydd ar y cyd yn annhebygol o fod yn un clir, cryno, integredig a hwylus i'w ddefnyddio oherwydd byddai angen cyfeirio trwy gydol y ddogfen at ddwy set (neu ragor) o strategaethau ac amcanion gwleidyddol Cynghorau gwahanol.

Gan ystyried y materion a amlinellwyd uchod, mae'r Cytundeb Cyflenwi hwn wedi'i baratoi fel Cynllun Newydd ar gyfer Ceredigion yn unig. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i nodi dulliau cyffredin, cytundeb mewn perthynas â methodolegau cyffredin[25] a chyd-gomisiynu sylfaen tystiolaeth, lle bo'n briodol, fel y tystia'r Astudiaeth Capasiti Manwerthu diweddar, a gynhaliwyd gyda Chyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

## 4.2 Staffio ac Adnoddau Ariannol

I gyflawni'r CDLl Newydd yn unol â'r amserlen benodedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod hi'n hanfodol sicrhau bod adnoddau staffio ac ariannol digonol ar gael.

Gwneir y gwaith o baratoi'r cynllun creiddiol gan y tîm Polisi Cynllunio sy'n cynnwys chwe aelod o staff[26] , gan gynnwys Rheolwr Gwasanaethau, tri Swyddog Cynllunio, Swyddog Cynorthwyol (dros dro hyd at Mawrth 2018) a Swyddog Technegol. Dros y pedair blynedd nesaf bydd o leiaf 80% o amser y tîm yn cael ei wario ar y broses CDLl, ynghyd ag amcangyfrif o 20% o fewnbwn y tîm ymchwil (sef 1 cyfwerth ag amser llawn). Fodd bynnag, bydd y tîm yn cael cefnogaeth a chymorth gan aelodau eraill o'r staff ar faterion megis rhagamcanion poblogaeth, mwynau, a materion ecoleg. Bydd aelodau arbenigol o'r Gwasanaethau Cynllunio ac adrannau eraill y Cyngor, er enghraifft, priffyrdd, addysg a datblygu economaidd yn cyfrannu at y gwaith

[25] megis ar gyfer yr Adolygiad Tir Cyflogaeth 'lleol a mwy'
[26] 2 o swyddi gwag ym mis Tachwedd 2017, yn gweithio ar y gweill ar drefniadau recriwtio

hefyd, yn arbennig felly o ran llunio polisïau. Ystyrir cyflogi staff ychwanegol hefyd i gynorthwyo ar adegau neilltuol o broses y CDLl a defnyddir ymgynghorwyr allanol fel bo'n briodol.

O ran adnoddau ariannol, tybir bod darparu'r CDLl Newydd yn debygol o gostio tua £1.7 miliwn. Bydd y rhan fwyaf o'r costau'n ymwneud â'r cam Cyn Adneuo a'r Archwiliad. O ran y cam Cyn Adneuo bydd y rhan fwyaf o'r costau'n gysylltiedig â'r angen i baratoi tystiolaeth. Bydd llawer o'r gwariant mawr sy'n weddill yn gostau sy'n gysylltiedig â'r Ymchwiliad (gan gynnwys swyddog rhaglennu, cymorth gweinyddol ychwanegol, cymorth cyfreithiol a chostau'r Arolygydd). Bydd costau eraill yn ystod y broses yn cynnwys cynhyrchu/cyfieithu amryw o ddogfennau (Y Strategaeth a Ffefrir, fersiynau Adneuo a Mabwysiedig, ynghyd â dogfennau ategol megis mapiau lliw) a chostau ymgynghori (llythyrau, hysbysebion ac ati).

## 4.3 Cyflawni'r Cynllun a Rheoli Risg

Ystyrir bod rhan ddiffiniol yr amserlen arfaethedig yn realistig a bod modd ei chyflawni gan ystyried:

- Maint y gwaith y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen ei wneud i baratoi'r cynllun gan roi ystyriaeth i reoliadau a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Yr adnoddau (staff ac arian) y gall y Cyngor eu darparu i baratoi'r cynllun; a
- Strwythur presennol y Cyngor, ei strwythurau ar gyfer gwneud penderfyniadau, cylchoedd cyfarfodydd ac etholiadau yn y dyfodol.

Er y gwneir pob ymdrech i gadw at yr amserlen hon, mae Atodiad 7 yn nodi nifer o risgiau posib ynghyd â'r modd y mae'r Cyngor yn bwriadu'u rheoli.

Bydd yr amserlen, ynghyd â'r raglen waith a ragwelir a'r adnoddau sydd ar gael, yn cael ei adolygu'n rheolaidd i fonitro'r risgiau a nodwyd.

# Rhan 5: Monitro ac Adolygu

## 5.1 Cytundeb Cyflenwi

Bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi trwy gydol y broses o baratoi'r CDLl, er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion Cynllun Cynnwys y Gymuned yn cael eu cyflawni'n unol â'r amserlen arfaethedig.

O fewn tri mis o'r diwedd y cyfnod ymgynghori Adneuo, bydd amserlen wedi'i ddiweddaru yn dangos dyddiadau pendant ar gyfer camau dangosol proses y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gytuno.

**Ar ôl Mabwysiadu'r CDLl Newydd:**
Ar ôl mabwysiadu'r cynllun newydd bydd y Cyngor yn ei fonitro'n flynyddol gan gyflwyno'i ganfyddiadau mewn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Bydd y monitro hwn yn asesu perfformiad polisïau a chynigion y cynllun i weld pa mor effeithiol ydynt. Bydd hyn yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau angenrheidiol a bydd hefyd yn sail ar gyfer adolygu'r CDLl yn y dyfodol. Bydd yr AMB hefyd yn cynnwys cyfeiriadau cyfredol at unrhyw gyfarwyddyd cynllunio cenedlaethol newydd a gwybodaeth berthnasol arall. Unwaith y caiff ei lunio, bydd yr adroddiad monitro ar gael i'r cyhoedd ei weld ar y wefan.

Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal adolygiad llawn o'r cynllun newydd o leiaf unwaith bob 4 blynedd.

# Rhan 6: Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Polisi Cynllunio
Gwasanaethau Economi a Pherfformiad
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA
Ffôn: 01545 572123
E-bost: ldp@ceredigion.gov.uk Cyfeiriad y Wefan: www.ceredigion.gov.uk/ldp

# Atodiad 1: Deddfwriaeth, Cynlluniau a Strategaethau fydd yn dylanwadu ar y CDLl[27]

| Deddfwriaeth | Cylch Gwaith |
|---|---|
| Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), Rhan 6 | Deddfwriaeth – CDLlau gan gynnwys gofynion trefniadol |
| Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 | |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | |
| Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 | |
| Rheoliadau Asesiadau o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (“Rheoliadau AAS”) | Offeryn Statudol Cymru sy’n pennu gweithdrefn ar gyfer asesiad amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni ar ôl Gorffennaf 21ain 2006 |
| Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 | Mae’r Ddeddf yn gwneud hi’n ofynnol i Awdurdodau Lleol wella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn barhaus. |
| Deddf Tai (Cymru) 2014 | |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | |
| Lles y Cynghorau Dyfodol (Cymru) 2015 | |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | |
| | |
| **Canllawiau Polisi a Chynllunio Cenedlaethol** | |
| **Llywodraeth Cymru** | |
| Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Argraffiad 9, 2016) | Polisi Cynllunio Cenedlaethol y Cynulliad. |
| Polisi Cynllunio Mwynau | Polisi Cynllunio Cenedlaethol y Cynulliad mewn perthynas ag echdynnu mwynau. |
| Nodiadau Cyngor Technegol | Cyngor Technegol mewn meysydd testun sy’n cefnogi PCC / PCMC |
| Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau | |
| Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Drafft Ymgynghorol) (diwedd 2017) | |
| Nodiadau Cyngor Technegol (Cymru), | Cyfres o nodiadau canllaw i gefnogi |

27 Gellir ychwanegu at y rhestr hon

| | |
|---|---|
| Cylchlythyrau a Chyngor Technegol Mwynau Nodyn Cyngor 1: Agregau (Cymru) | polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru. |
| Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – i’w gyhoeddi yn 2019 | Pennu fframwaith cynllunio gofodol cenedlaethol; gwaith ar y gweill i hwyluso’r broses paratoi Strategaeth a Ffefrir |
| | |
| **Canllawiau Arolygiaeth Gynllunio (Cymru)** | |
| Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol: Canllawiau Gweithdrefnol (2015) | Esbonnir gofynion trefniadol mewn perthynas â CDLlau. |
| CDLlau: Paratoi i gyflwyno – Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol (2015) | Esbonnir gofynion trefniadol mewn perthynas â CDLlau. |
| 4 Canllawiau AAS y Gwledydd | |
| Canllaw Ymarferol i’r Gyfarwyddeb AAS (Medi 2005) | Wedi’i baratoi gan Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog, Gweithrediaeth yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon i ddarparu canllawiau ar gyfer cydymffurfio â’r Gyfarwyddeb AAS. |
| **Strategaethau Llywodraeth Cymru** | |
| Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru | Cyhoeddwyd ym Mehefin 2002 gan y Cynulliad, mae’r strategaeth yn pennu targedau ar gyfer ailgylchu a lleihau gwastraff. |
| Strategaeth Amgylcheddol ar Gyfer Cymru | Cyhoeddwyd y Strategaeth Amgylcheddol ym Mai 2006. Dyma strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd Cymru, sy’n gosod y cyfeiriad strategol am yr 20 mlynedd nesaf. |
| Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni 2016-2026 | |
| Cymraeg 2050 | |
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** | |
| Datganiad Polisi Cyfoeth Naturiol Cymru 2015 | |
| Adroddiad Sefyllfa Byd Natur (Cymru) 2014 | |
| | |
| **Strategaethau Lleol** | |

| | |
|---|---|
| Strategaeth Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru | |
| Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru (2015) | Mae'r cynllun hwn yn nodi materion allweddol a chyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth yng Nghanolbarth Cymru. |
| Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Rhanbarth De Orllewin Cymru Tachwedd 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru) | Mae'n ofynnol bod Grŵp Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin Cymru'n paratoi a chyhoeddi adolygiad o'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol erbyn 31 Mawrth 2007. |
| | |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** | |
| Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant BGC Ceredigion | |
| | |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | |
| Y Strategaeth Gymunedol – Ceredigion 2020 | Mae Ceredigion 2020 yn gosod y weledigaeth ganlynol ynghylch sut y bydd y Sir yn datblygu trwy weithio mewn Partneriaeth: "Yn 2020 bydd Ceredigion yn gymuned hunanhyderus, iach, ofalgar, ddwyieithog, a gynhelir gan economi lleol cryf, a fydd yn defnyddio doniau ei phobl, yn gwneud defnydd doeth o adnoddau ei hamgylchedd hynod, ac yn darparu cyfleoedd i bawb gyrraedd eu potensial yn llawn." |
| Amcanion Llesiant a Datganiad Llesiant Ceredigion | |
| Strategaethau Tai Lleol gan gynnwys yr Asesiad Anghenion Tai Lleol | Cymeradwywyd y Strategaeth Dai gan y Cyngor ym mis Mai 2016. Dechreuwyd adolygu'r Strategaeth Tai Lleol yn 2017. Cynhaliwyd yr asesiad anghenion tai diweddaraf ar gyfer y Sir yn 2016. |
| Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2015 | Bydd angen diweddariad i ystyried Anghenion trwy gydol y Cynllun Newydd. |
| Ceredigion Actif – Strategaeth Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden 2014-2020 | Strategaeth ar gyfer darparu gweithgareddau Hamdden a Chwaraeon effeithiol ac effeithlon yng Ngheredigion. |
| | |

| **Dogfennau Lleol** | |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLl) 2002 | Lluniwyd hwn gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Ceredigion sy'n cynnwys amryw o fudiadau sydd â gofal dros fyd natur. Mae'r CGBL yn canolbwyntio ar elfennau mwyaf allweddol amgylchedd naturiol Ceredigion, gan gymryd amcanion a nodau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a'u haddasu yn ôl y cyd-destun lleol. Bydd y Cynllun Adfer Natur yn disodli'r cynllun hwn. |
| Cynllun Rheoli Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion | Mae rhannau helaeth o'r Bae wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop. |
| Cynllun Rheoli Pen Llyn a'r Sarnau | |
| Cynllun Aber Afon Teifi | Mae Aber Afon Teifi'n unigryw – hon yw'r unig aber sy'n gyfan gwbl yng Nghymru sydd â'i Chynllun Rheoli Aber ei hun. Lluniwyd y cynllun gan Fenter Rheoli Amgylchedd Aber Afon Teifi sy'n cynnwys nifer o fudiadau gan gynnwys y Cyngor Sir. |
| | |
| **Cynlluniau Cyfagos** | |
| CDLl Sir Gaerfyrddin 2006 - 2021 | $2^{il}$ AMB i'w gyhoeddi yn Hydref 2017 |
| CDLl Sir Benfro 2006 - 2021 | Dechreuodd yr adolygiad yn 2017 |
| CDLl Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Gwaith yn mynd rhagddo ar y Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Newydd |
| CDLl Powys 2011 - 2026 | Archwiliad 2017 |
| CDLl ar y cyd Gwynedd ac Ynys Môn | Mabwysiadwyd Gorffennaf 2017 |

# Atodiad 2A: Rhestr o Ymgynghoreion

Mae'n ofynnol[28] bod yr ACLl yn sicrhau bod yna gyfranogi (yn nhermau Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Chyrff Ymgynghori Penodol), ac ymgynghori (yn nhermau Cyrff Ymgynghori Cyffredinol a Chyrff Ymgynghori Penodol, cyrff eraill, a'r cyhoedd yn gyffredinol) yn ystod camau amrywiol y broses CDLl. Mae'r Rheoliadau'n darparu diffiniad o Gyrff Ymgynghori Cyffredinol a Chyrff Ymgynghori Penodol (gweler Rheoliad 2). Ymgynghorwyd â'r ddwy set o gyrff, fel y'u diffinnir dan Reoliad 2 wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflenwi,[29] gan gyfeirio'n benodol at yr Amserlen, a bydd y broses ymgynghori honno (a chyfranogi lle bo'n berthnasol) yn parhau trwy gydol y CDLl.

## B2 – Cyrff Ymgynghori Penodol

Diffinnir Cyrff Ymgynghori Penodol yn y Rheoliadau fel:-

i Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â chynllunio, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros amrywiaeth eang o faterion polisi gan gynnwys amaeth, datblygu economaidd, addysg, yr amgylchedd, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, yr amgylchedd hanesyddol, tai, diwydiant, twristiaeth, trafnidiaeth a'r iaith Gymraeg. **Bydd Adran Gynllunio Llywodraeth Cymru'n cydlynu ymgynghoriadau o fewn Llywodraeth Cymru**.

ii. Cyfoeth Naturiol Cymru

iii. Network Rail Infrastructure Limited (Cymru a'r Gorllewin - Eiddo)

iv. Yr Ysgrifennydd Gwladol – i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu swyddogaethau yr arferai Awdurdod Strategol y Rheilffyrdd (Deddf Rheilffyrdd 2005) eu gweithredu.

v. Awdurdod perthnasol (h.y. awdurdod cynllunio lleol neu gyngor cymuned neu gyngor tref) y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod, neu'n ffinio â hi.

vii. Rhywun sy'n berchen ar gyfarpar cyfathrebu electronig neu sy'n rheoli cyfarpar o'r fath mewn unrhyw ran o ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol (lle bo hynny'n hysbys).

viii. Unrhyw gorff o'r rhestr isod sy'n gweithredu swyddogaethau mewn unrhyw ran o ardal yr awdurdod:

a. Bwrdd Iechyd Lleol
b. rhywun y rhoddwyd trwydded iddo dan adran 6(1)(b) neu (c) o'r Ddeddf Trydan
c. rhywun y rhoddwyd trwydded iddo dan adran 7(2) Deddf Nwy 1986
d. cwmni carthffosiaeth
e. cwmni dŵr

[28] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) (Cymru) 2005, fel y'u diwygiwyd
[29] Fel rhan o'r ymgynghori ffurfiol ar y Cytundeb Cyflenwi hwn

Y rhai ar gyfer Ceredigion yw:

**Cyrff/Asiantaethau'r Llywodraeth**

- Llywodraeth Cymru (LIC)/Welsh Government (WG)
- Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales
- Network Rail (Tîm Cynllunio Tref)
- Ysgrifennydd Gwladol Cymru/Secretary of State for Wales[30]

**Cynghorau Tref a Chymuned**

- Cynghorau Tref a Chymuned yng Ngheredigion
- Cynghorau Tref a Chymuned sydd dros y ffin â Cheredigion

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Service Board

**Awdurdodau Lleol Cyfagos**

- Cyngor Sir Gar/Carmarthenshire County Council
- Cyngor Gwynedd County Council
- Awdurdod y Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Pembrokeshire Coast National Park Authority
- Cyngor Sir Penfro/Pembrokeshire County Council
- Cyngor Sir Powys County Council
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri/Snowdonia National Park Authority

**Busnesau a Chyrff Cyfathrebu Electroneg**

- Radio Ceredigion
- Radio Beca
- Grŵp BT ccc/BT Group plc
- Arqiva
- OFCOM
- Vodafone/O2
- EE
- Three

**Cyrff Iechyd**

- Bwrdd Ichyd Prifysgol Hywell Dda University Health Board
- Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda Public Health Team

**Cwmnïau Cyfleustodau**

- Cyfleustodau Cymru a'r Gorllewin Cyf/Wales & the West Utilities Ltd
- Western Power Distribution
- Scottish Power
- Statkraft - Gorsaf Bŵer Cwm Rheidol Cwm Rheidol Power Station
- Y Grid Cenedlaethol (diogelu safleoedd)/National Grid Plant

---

[30] in so far as the SoS exercises functions previously exercisable by the Strategic Rail Authority

Protection
EDF Energy Renewables
EDF
SSE Energy Supply Ltd
British Gas Trading Ltd
Dwr Cymru/Welsh Water

**Cyrff Ymgynghori Cyffredinol**

Diffinnir Cyrff Ymgynghori Cyffredinol yn y Rheoliadau fel: -

- cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu'r cyfan o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr ACLl;
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr ACLl;
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau crefyddol gwahanol yn ardal yr ACLl;
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn ardal yr ACLl;
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cynnal busnes yn ardal yr ACLl;
- cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal yr ACLl;

O ran Ceredigion y Cyrff Ymgynghori Cyffredinol hyd yn hyn yw:

**Cyrff Gwirfoddol/Elusennol**

CAVO (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion Association of Voluntary Organisations)
Cynghrair y Trydydd Sector/Third Sector Alliance
Age Cymru Ceredigion
Cymdeithas Gofal/The Care Society
RAY Ceredigion
JigSo
Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru Cangen Ceredigion/Welsh Historic Gardens Trust Ceredigion Branch
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed Archaeological Trust

**Cyrff sy'n cynrychioli grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol**

Sipsiwn a Theithwyr Cymru/Gypsies & Travellers Wales
Teithio Ymlaen/Travelling Ahead (yn Achub Y Plant Cymru/at Save the Children Cymru)
Urdd Siewmyn Prydain Fawr/The Showmen's Guild of Great Britain
The Travellers School Charity
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol/Equality and Human Rights Commission

**Cyrff sy'n cynrychioli grwpiau crefyddol gwahanol yng Ngheredigion**

Y Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales

Cytun Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents
Eglwys Bresbyteraidd Cymru/The Presbyterian Church of Wales
Grŵp Bwdaidd Aberystwyth Buddhist Group
Dyneiddwyr Gorllewin Cymru/West Wales Humanists

**Cyrff sy'n cynrychioli pobl ag anabledd**

Anabledd Cymru/Disability Wales

**Cyrff sy'n cynrychioli rhai sy'n cynnal Busnesau o fewn ardal yr Awdurdod**

Menter Aberystwyth
Siambr Fasnach Aberystwyth Chamber of Commerce
Clwb Busnes Aberystwyth Business Club
Siambr Fasnach Aberteifi/Cardigan Chamber of Trade Commerce & Tourism
Menter Aberteifi Cyf
Siambr Masnach Llanbedr Pont Steffan/Lampeter Chamber of Trade and Commerce
Trawsnewid Llambed/Transition Llambed
Llandysul and Pont Tyweli Ymlaen Cyf
Antur Teifi
Undeb Amaethwyr Cymru/Farmers Union for Wales
NFU Cymru
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi/Home Builders Federation
Siambrau Masnach/Chambers of Trade
Menter a Busnes
MWT Cymru
Maes Awyr Gorllewin Cymru/West Wales Airport Aberporth
Brodyr Richard Bros
Mid Wales Travel
Trenau Arriva Cymru/Arriva Trains Wales
Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig Cymru – Ceredigion/Royal Institution of Chartered Surveyors Wales (RICS) - Ceredigion
Grŵp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd/Rail Freight Group
Cymdeithas Cynnyrch Mwynau/Mineral Products Association
British Aggregates Association
Arolwg Daearegol Prydain/British Geological Survey
Ganolfan Ecoleg a Hydroleg/Centre for Ecology and Hydrology
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad/CLA - Country Land and Business Association

**Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru**

Comisiynydd y Gymraeg/Welsh Language Commissioner
Cered
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Y Ganolfan Cynllunio Iaith/Welsh Centre for Language Planning
Comisiwn Dylunio Cymru Design Commission for Wales
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)/Royal Commission on the Ancient & Historical Monuments of Wales (RCAHMW)

Fforwm Hanes Lleol Ceredigion Local History Forum
Cymdeithas Hanes Ceredigion Historical Society
Cymdiethas Aberaeron
Cymdeithas Ceinewydd a'r Cylch/The New Quay & District Society
Cymdeithas Ddinesig Aberystwyth a'r Cylch/Aberystwyth & District Civic Society
Merched y Wawr
Sefydliad y Merched Ceredigion Federation of Women's Institutes
Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion
Fforwm CFfI/YFC Forum
Fforwm yr Urdd Forum
Mudiad Urdd Gobaith Cymru Llangrannog
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru/The Wildlife Trust of South & West Wales
Grwp Aberystwyth Gwyrddach/Greener Aberystwyth Group
Ecodyfi & Biosffer Dyfi Biosphere
Pentir Pumlumon
Cymdeithas Mynyddoedd Cambria/The Cambrian Mountains Society
Cymdeithas y Cerddwyr – Grŵp Aberystwyth/Ramblers Association Aberystwyth Group
Ymlaen Ceredigion (Sustainability)
Awel Deg Aberteifi/Cardigan Fair Wind
Llyfrgell Genedlaethol Cymru/The National Library of Wales
Prifysgol Aberystwyth University
Prif Ysgol Cymru Y Dindod Dewi Sant Campws Llanbed/University of Wales Trinity Saint David - Lampeter Campus

**Arall**

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth Univeristy Students Union
Coleg Ceredigion
Hyfforddiant Ceredigion Training
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys Police and Crime Commissioner
Heddlu Dyfed Powys Police
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru/Mid and West Wales Fire Authority
Ceredigion AS/MP
AC/AM Ceredigion
Un Llais Cymru/One Voice Wales
Yr Arolygiaeth Gynllunio/Planning Inspectorate
Llyfergell Yr Arolygiaeth Gynllunio/Planning Inspectorate Library
Cymorth Cynllunio Cymru/Planning Aid Wales
Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru/RTPI Cymru
Sefydliad Seilwaith Amddiffyn/Defence Infastructure Organisation
Gwasanaeth Rheoli Traffig Awyr Cenedlaethol Cyf (Gwasanaethau Seilwaith - Gwasanaethau Llywio a Sbectrwm)/National Air Traffic

Services Ltd (Infrastructure Services - Navigation & Spectrum Services)
Comisiynwyr Ystadau'r Goron – Gwledig/Crown Estate Commissioners - Rural
Comisiynwyr Ystadau'r Goron- Morol/Crown Estate Commissioners - Marine
Sefydliad Tai Siartredig Cymru/Chartered Institute of Housing - CIH Cymru
Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff Cymru/Chartered Institution of Wastes Management - CIWM Wales
Chwaraeon Cymru Sport Wales
Rhwydwaith Ardal Chwarae Ceredigion Play Area Network
Meysydd Chwarae Cymru/Fields in Trust Cymru
Tai Ceredigion Cyf
Tai Wales and West Housing
Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru/Mid Wales Housing Association
CLAS Cymru (Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol / Community Land Advisory Service)
Cambrian News
Tivy Side Advertiser
Papurau Bro/Community Papers
Lleisiau Ceredigion dros Gydraddoldeb/Ceredigion Voices for Equality
Cyngor Ieuenctid Ceredigion/Ceredigion Youth Council
Cynghorau Ysgol/School Councils
Grŵp Meibion a Merched i Gofalwyr Maeth/Sons and Daughters of Foster Carers Group
Grŵp Gofalwyr Ifanc/Young Carers Group
Fforwm y Gwasanaeth Ieuenctid/Youth Service Forum
Disgyblion 14-19 Pupils
Grwpiau Ardal Dechrau'n Deg/Flying Start Locality Groups
Cyngor Plant Mewn Gofal/LAC Council – Looked after Children Council
Fforwm Gofalwyr/Cynghrair Gofalwyr Ceredigion Carers Forum/Ceredigion Carers Alliance
Grwpiau ymgynghori gyda gofalwyr maeth x 3/Foster carer consultation groups x 3
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Ceredigion/Ceredigion Parents and Carers Forum
Llais Rhieni
Grŵp Mynediad Lleol Ceredigion/Ceredigion Local Access Forum
Cymorthfeydd defnyddiwr Bws/Bus User Surgeries
Cyngor Chwaraeon Lleol Ceredigion/Ceredigion Local Sports Council
Fforwm 50+ Ceredigion/Ceredigion 50+ Forum
Bwrdd Rhanddeiliaid Cylch Caron/Cylch Caron Stakeholder Board
Cered (Menter Iaith) Fforwm Sirol/Cered (Language Initiative) - Fforwm Sirol

Pwerdai Iaith Gymraeg
Panel Dinasyddion/Citizens Panel
Fforwm Anabledd Ceredigion/Ceredigion Disability Forum
Grŵp Gweithredu Anabledd Cymru/Disability Action Group Wales
Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog/Armed Forces Veterans Forum
Pwyllgor Defnyddiwr Harbwr/Harbour user committee
Fforwm Landlordiaid/Landlords Forum
Cymdeithas Twristiaeth Ceredigion/Ceredigion Tourism Association
Perchnogion Parc Carafan/Caravan Park Proprietors
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru/Growing Mid Wales Partnership

Ychwanegir cyrff a sefydliadau eraill at y Cyrff Ymgynghori Cyffredinol yn ystod y broses fel bo angen. Dylid pwysleisio felly nad yw'r rhestr bresennol yn un gyflawn na chyfyngedig. Mae'r Cyngor yn croesawu pob awgrym, un ai'n uniongyrchol gan y sefydliadau eu hunain, neu gan unigolion ar ran grwpiau, sefydliadau neu gyrff sydd am gael eu cynnwys ar y rhestr. Mae'n rhaid iddynt berthyn i un o'r cyrff a nodwyd uchod. Mae gan Gyrff Ymgynghori Cyffredinol statws penodol yn y Rheoliadau. Nid oes gan unrhyw grŵp nac unigolyn arall statws o'r fath yn ôl y Rheoliadau.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw cronfa ddata/cofrestr weithredol a chyfredol o gyrff ac unigolion eraill sydd wedi mynegi diddordeb yn y broses CDLl. Mae'r gronfa ddata hefyd yn cynnwys cyrff a restrir yn CDLl Cymru, 2005, Atodiad A, paragraffau B3 (adrannau Llywodraeth y DU) a B5 (asiantaethau a sefydliadau eraill). Bydd y rhestr yn parhau i ehangu a newid trwy gydol y broses o baratoi CDLl newydd.

Bydd y Cyngor yn cynnwys pawb sydd ar y gofrestr/cronfa ddata yn y broses ymgynghori yn unol â'r amserlen yn Atodiad 2B. Lle'n bo'n briodol, gellir hefyd gofyn i bawb sydd ar y gofrestr/cronfa ddata i gyfranogi drwy gael eu dethol ar gyfer Grwpiau Rhanddeiliaid perthnasol.

# Atodiad 2B: Cynllun Manwl i Gynnwys y Gymuned

## Atodiad 2B1: Cyfranogi Cyn Adneuo (Rheoliad 14)

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Casglu tystiolaeth ac Amcanion. | Materion Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion, Adolygu Strategaethau a Pholisïau | Aelod Cabinet a'r Gweithgor. Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol | Cyfarfodydd rhagarweiniol i esbonio proses adolygu'r CDLl, rôl y grwpiau ac ati. Bydd y cyfarfodydd a'r mewnbwn dilynol yn cynnwys adolygu'r deunyddiau hyd yma, gwneud y gorau o bosibiliadau rhannu gwybodaeth, a nodi'r anghenion o ran gwneud rhagor o ymchwil. | Rhoi adroddiadau ar y wefan er gwybodaeth fel bo'n briodol. |
| | Adolygu anghenion a safleoedd a ddyrannwyd eisoes.<br><br>Paratoi rhestr o ddarpar safleoedd gyda darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, | Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl. Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol a Grwpiau Rhanddeiliaid eraill<br><br>Pawb sydd yn y gronfa ddata<br>Y cyhoedd | Cyfarfodydd ar y cyd, a chyfarfodydd unigol.<br><br>Llythyrau'n unig, yn rhoi gwybod pryd y dylid cyflwyno darpar safleoedd | Rhoi gwybod am ddigwyddiadau ar y wefan. |

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| | datblygwyr, perchnogion tir a'r cyhoedd.<br><br>Creu cofrestr safleoedd | | Hysbysiadau yn y wasg<br>Y cyfryngau lleol | Copi caled o'r gofrestr yn y lleoliad adneuo. Copi electronig ar y wefan |
| Paratoi opsiynau Strategaeth ac asesu'r dewisiadau eraill | Adolygu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl a goblygiadau'r sylfaen tystiolaeth. | Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8). Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl. | Grwpiau Ffocws/Gweithgorau dechreuol ar gyfer yr adroddiad opsiynau drafft er mwyn cwrdd ag Amcanion y CDLl. Cyfarfod i ystyried yr opsiynau a phennu'r strategaeth ddrafft a ffefrir.<br>Fforymau adborth i roi sylwadau ar yr opsiynau strategol, asesu'r sylfaen tystiolaeth (adroddiadau pwnc wedi'u paratoi) a'r opsiynau yn erbyn y strategaeth ddrafft a ffefrir, ystyried y safleoedd strategol a nodwyd. | Rhoi adroddiadau ar y wefan er gwybodaeth fel bo'n briodol. |
| | Nodi'r safleoedd sy'n deillio o'r strategaeth a ffefrir neu sy'n cydymffurfio â hi. | Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8). Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl. | Grwpiau Ffocws/Gweithgorau i baratoi adroddiad drafft ar safleoedd sy'n cydweddu/ddim yn cydweddu â'r strategaeth ddrafft a ffefrir. | Rhoi'r adroddiad drafft ar y wefan er gwybodaeth fel bo'n briodol |
| Paratoi dogfennau cynigion cyn | Paratoi polisïau strategol drafft a dyraniadau | Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8). Aelod | Grwpiau ffocws/Gweithgorau yn ôl pynciau | Dogfen Cynigion Strategaeth Ddrafft a Ffefrir i'r Cabinet er |

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| adneuo | strategol yn unol â'r strategaeth a ffefrir | Cabinet a Gweithgor y CDLl. | | mwyn ei chymeradwyo/ei hargymell i'r Cyngor Llawn ar gyfer ymgynghoriad. |
| | | Y Cabinet<br>Y Cyngor | Y Cabinet i ystyried y dogfennau Cyn Adneuo drafft gyda'r bwriad o argymell i'r Cyngor Llawn y dylid eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. Cyfarfod o'r Cyngor i ystyried argymhelliad y Cabinet a chymeradwyo'r CDLl drafft Cyn Adneuo ar gyfer ymgynghoriad. | Rhoi'r penderfyniadau ar y wefan. |
| **AC/AAS** | | | | |
| Ymgynghoriad 6 wythnos ar Adroddiad Cwmpasu'r AC/AAS | Galluogi pawb sydd a wnelo â'r mater i gynnig sylwadau ar gwmpas yr AC/AAS a'r amcanion. | Cyrff Ymgynghori Penodol<br><br>Gweithgor Cynaladwyedd (GC)<br><br>Y cyhoedd | Llythyr<br><br>Gweithdy<br><br>Copïau o'r Adroddiad cwmpasu ar gael yn y lleoliad adneuo | Rhoi crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y wefan.<br><br>Darparu copi caled o'r sylwadau a dderbyniwyd yn y lleoliad adneuo |

## Atodiad 2B2: Ymgynghori Cyhoeddus Cyn Adneuo (Rheoliad 15 ac 16)

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull hymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| 6 wythnos o ymgynghori cyhoeddus cyn adneuo ac yna asesu'r sylwadau a dderbyniwyd | Galluogi pawb i gynnig sylwadau ar ddogfen Cyn Adneuo'r Cyngor. | Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol. Aelodau Etholedig. Pawb sydd yn y gronfa ddata.<br><br>Y Cyhoedd | Gohebu'n uniongyrchol<br><br>Defnyddio'r cyfryngau lleol. Copïau o'r dogfennau cyn adneuo ar gael yn y lleoliad adneuo<br>Gwybodaeth ar gael ar y wefan.<br>Hysbysiadau safle ar ddyraniadau safleoedd tir penodol. | Ffurflen Sylwadau Safonol<br><br>Ffurflen gais dyrannu safle |
| | Er mwyn gallu ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd | Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8). Aelod Cabinet a Gweithgor y CDLl.<br><br>Gweithgor Cynaladwyedd (GC) | Grwpiau Ffocws/Gweithgorau'n ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn paratoi argymhellion i'r Cabinet eu hystyried | Adroddiad y Cabinet ar yr Ymgynghoriad ac argymhellion ar gyfer y Cyngor ar gael ar y wefan. |
| Paratoi'r | Mynd ati i | Y Cabinet | Y Cabinet yn ystyried y Cynllun Adneuo drafft i | Rhoi penderfyniad |

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull hymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Dogfennau Adneuo gan gynnwys Adroddiad Interim Cynnwys y Gymuned | adneuo'r CDLl yn ffurfiol | Y Cyngor | gynorthwyo'r Cyngor Llawn i wneud penderfyniad ynghylch ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. | y Cyngor ar y wefan. |
| **AC/AAS** | | | | |
| Ymgynghoriad 6 wythnos ar yr Adroddiad Cynaladwyedd dechreuol | Dangos sut y lluniwyd yr opsiynau a ffefrir gan roi ystyriaeth i'r AC/AAS. Rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid gynnig sylwadau ar yr AC/AAS | Cyrff Ymgynghori Penodol<br><br>Gweithgor Cynaladwyedd (GC)<br><br>Y Cyhoedd | Gohebu'n uniongyrchol.<br><br>Gwybodaeth ar gael ar y wefan<br><br>Datganiadau i'r wasg, y cyfryngau lleol. | Rhoi crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ar y wefan<br><br>Copi caled o'r sylwadau ar gael yn y lleoliad adneuo |

## Atodiad 2B3 Adneuo'r Cynigion yn Statudol (Rheoliad 17)

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad 6 wythnos ar yr Adneuo | Galluogi'r holl gyrff ac unigolion sydd a wnelo â'r mater i gynnig sylwadau ar y polisïau a'r cynigion a geir yn y Cynllun Adneuo | Aelodau Etholedig<br><br>Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol.<br>Pawb sydd yn y gronfa ddata.<br><br>Y Cyhoedd | Dosbarthu copïau.<br><br>Llythyrau'n cynnwys manylion Adneuo'r CDLl.<br><br>Hysbysebion yn y wasg, defnyddio'r cyfryngau lleol.<br>Holl ddogfennau'r CDLl ar gael ar y wefan. Copïau caled o'r cynllun ar gael yn y lleoliad adneuo.<br>Hysbysiadau safle ar ddyraniadau safleoedd tir penodol. | Ffurflen Sylwadau Safonol<br><br>Adroddiad ar y Sylwadau gan gynnwys rhestr o'r sylwadau ynghylch dyrannu safleoedd ar gael ar y wefan<br><br>Copi caled o'r adroddiad yn y lleoliad adneuo |
| **Yr AC/AAS ar gael gyda'r Cynllun Adneuo** | | | | |
| Adroddiad Amgylcheddol/ Cynaladwyedd | Ymgynghori ynghylch canlyniadau allweddol proses yr AC/AAS. | | Fel uchod | Fel uchod |

## Appendix 2B4 Handling of Representations (Regulation 19)

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Ymdrin â'r Sylwadau Adneuo (Rheoliad 19, fel y'i diwygiwyd) - Atodiad 2B4 Ymgynghoriad 6 wythnos | Galluogi pob unigolyn/sefydliad sydd a wnelo â'r mater i weld a chynnig sylwadau ar y newidiadau â ffocws. | Aelodau Etholedig<br><br>Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol.<br>Pawb sydd yn y gronfa ddata.<br>Y Cyhoedd | Dosbarthu copïau<br><br>Llythyrau'n rhoi gwybod am yr ymgynghori ynghylch y newidiadau â ffocws.<br><br>Hysbysebion yn y wasg, defnyddio'r cyfryngau lleol.<br><br>Rhestr o'r holl sylwadau ar ddyrannu safleoedd ar gael ar y wefan.<br>Copïau caled ar gael yn y lleoliad adneuo. | Rhestr o'r sylwadau a dderbyniwyd ar gael ar y wefan<br><br>Copi caled o'r adroddiad yn y lleoliad adneuo |
| **AC/AAS** | | | | |
| Asesu ac Arfarnu newidiadau sylweddol | Sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu hasesu o ran goblygiadau cynaladwyedd / effeithiau cronnus | | | Canlyniadau'r asesiad ar gael mewn papur cyhoeddus, rhan annatod o'r AC/ AAS |

## Atodiad 2B5 Cyflwyno’r CDLl i’w Archwilio (Rheoliad 22)

| Y cam ym mhroses llunio’r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Crynhoi ac asesu’r Sylwadau ar y Fersiwn Adneuo (gan gynnwys yr ymatebion i’r sylwadau ynghylch dyrannu safleoedd). | Crynhoi’r sylwadau (gan gynnwys yr ymatebion i’r sylwadau ynghylch dyrannu safleoedd) er gwybodaeth, a phenderfynu a ddylid/a ellid cynnig gwelliannau i strategaeth y CDLl a pholisïau a chynigion y cynllun fel awgrymiadau ar gyfer yr Arolygydd. Dylid nodi na chaiff yr ACLl ei hun gynnig newidiadau ffurfiol i’r CDLl ar ôl ei adneuo. | Aelodau Etholedig<br><br>Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol (gweler tudalen 8). Aelodau Etholedig.<br><br>Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol. Pawb sydd yn y gronfa ddata.<br><br>Y Cyhoedd | Dosbarthu copïau o’r crynodeb o sylwadau<br><br>Galw am amryw o gyfarfodydd, fel bo angen, i drafod y sylwadau ac ystyried a ddylai’r ACLl gynnig rhagor o newidiadau i’w hystyried gan yr Arolygydd<br><br>Llythyrau’n rhoi gwybod bod manylion y prif faterion ac ymatebion a godwyd yn yr ymgynghoriad ar gael.<br><br>Hysbysebion yn y wasg,<br>Crynodeb o brif faterion ac ymatebion yr ymgynghoriad ar gael ar y wefan.<br>Copïau caled ar gael yn y lleoliad adneuo | Darperir er gwybodaeth.<br><br>Darparu gwybodaeth ar gyfer yr Archwiliad Cyhoeddus |
| Cyflwyno’r ddogfen | Symud ymlaen gydag Archwiliad | Llywodraeth Cymru | Cyflwyno’r Cynllun Adneuo a’r dogfennau atodol. | Darparu gwybodaeth ar gyfer yr Archwiliad |

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| gerbron Llywodraeth Cymru i'w harchwilio | annibynnol ffurfiol y CDLl | | | Cyhoeddus |

## Appendix 2B6: Independent Examination (Regulation 23)

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Rhoi gwybod am yr Archwiliad Annibynnol. | Sicrhau bod y cyrff/unigolion sydd a wnelo â'r mater yn gwybod am yr Archwiliad Annibynnol | Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol. Aelodau Etholedig. Pawb sydd yn y gronfa ddata.<br><br>Y Cyhoedd | Hysbysu'n ffurfiol drwy lythyr.<br><br>Rhoi hysbysiad yn y wasg leol ac ar y wefan. | Dim |
| Cyfarfod cyn archwilio | Cynghori ynghylch gweithdrefnau a ffurf yr Archwiliad | Y rhai a wnaeth sylwadau penodol | Llythyr, Rhoi hysbysiad yn y wasg leol ac ar y Rhyngrwyd.<br><br>Cyfarfod, gyda'r Arolygydd yn annerch | Cofnodion y cyfarfod |
| Archwiliad Annibynnol | Sicrhau barn gynllunio ddiduedd ynghylch pa mor gadarn yw'r Cynllun, a'r sylwadau a wnaethpwyd yn ei gylch gan Arolygydd | Yr holl gyrff/unigolion sydd â wnelo â'r mater a gyflwynodd sylwadau yn ystod Cam Adneuo'r Cynllun | Sylwadau ysgrifenedig a llafar ffurfiol ac unrhyw ddulliau y bydd yr Arolygydd yn barnu eu bod yn briodol (e.e. sesiynau bordydd crwn | Adroddiad yr Arolygydd. |

| Y cam ym mhroses llunio'r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio Annibynnol | | | |

## Appendix 2B7: Receipt of the Inspector’s Report (Regulation 24)

| Y cam ym mhroses llunio’r cynllun | Pwrpas | Pwy? Posibiliadau o ran cynnwys y gymuned | Sut? Y dull ymgynghori | Dull hysbysu? |
|---|---|---|---|---|
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Cyflawni gofynion yr ACLI o ran rhoi cyhoeddusrwydd i Adroddiad yr Arolygydd a sicrhau ei fod ar gael erbyn y diwrnod y caiff y CDLI ei fabwysiadu | Unigolion/cyrff a wnaeth sylwadau yn ystod y Cam Adneuo Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol. Aelodau Etholedig. Pawb sydd yn y gronfa ddata. Y Cyhoedd | Hysbysiad Ffurfiol i’r rhai a ofynnodd am gael eu hysbysu<br>Hysbysebion yn y wasg.<br>Adroddiad yr Arolygydd ar gael ar wefan y Cyngor.<br>Copïau o’r adroddiad ar gael yn y lleoliad adneuo | Dim |

## Atodiad 2B8: Mabwysiadu (Rheoliad 25)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mabwysiadu'r CDLI yn ffurfiol | Cyflawni gofynion yr ACLI i fabwysiadu'r CDLI yn ffurfiol fel Cynllun Datblygu'r Sir o fewn 8 wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd oni fydd y Cynulliad yn ymyrryd | Cyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol.<br>Aelodau Etholedig.<br>Pawb sydd yn y gronfa ddata.<br>Y Cyhoedd | Rhoi gwybod yn ffurfiol trwy lythyr i'r Cyrff Ymgynghori Penodol a'r Cyrff Ymgynghori Cyffredinol, pawb sydd yn y gronfa ddata (a ofynnodd am gael eu hysbysu) a'r aelodau etholedig.<br>Rhoi hysbysiad yn y wasg leol ac ar y rhyngrwyd.<br>Dogfennau'r CDLI gan gynnwys y datganiad mabwysiadu a'r arfarniad cynaladwyedd ar gael ar y rhyngrwyd.<br><br>Copïau o'r holl ddogfennau perthnasol ar gael yn y lleoliad adneuo. | Dim |
| **AC/AAS** | | | | |
| Cyhoeddi'r AC terfynol (gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol) | Cydymffurfio a Rheoliadau'r AAS a nodi sut y dylanwadodd yr AC ar y CDLI mabwysiedig | Fel uchod | Fel uchod | Dim |

# Atodiad 3: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC)

**Aelodau Statudol**

- Cyngor Sir Ceredigion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Sefydliadau a Wahoddwyd**

- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys
- Heddlu Dyfed Powys
- Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys
- Cwmni Adsefydol Cymunedol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant
- Coleg Ceredigion
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Un Llais Cymru
- Cadeiryddion Pum Grŵp Gweithredol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Yng Ngheredigion ceir hefyd Grŵp Ymgynghorol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae’r Grŵp yn gweithio fel dolen gyswllt rhwng y Bwrdd a’i Grwpiau Gweithredol, a hefyd yn cynorthwyo’r Bwrdd drwy wneud argymhellion a chynnig cyngor. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi cadw’r pum Grŵp Gweithredol isod dan ei arweinyddiaeth.

Plant a Phobl Ifanc
Diogelwch Cymunedol
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
Dyfodol Dwyieithog
Dyfodol Cynaliadwy

# Atodiad 4: Proffil a Nodweddion y Gymuned

## Demograffeg Ceredigion

Poblogaeth Ceredigion yng Nghyfrifiad 2011 = 75,922
Poblogaeth 2015 Amcangyfrif Canol Blwyddyn (ACB) = 74,642 (Gwrywod = 37,475; Menywod = 37,167)

## Strwythur y boblogaeth

| Grŵp Bras | Cyfrifiad 2011 | % | 2015 ACB | % |
|---|---|---|---|---|
| **0-14** | 10,460 | 13.8 | 10,224 | 13.7 |
| **15-24** | 14,823 | 19.5 | 14,723 | 19.7 |
| **25-44** | 14,897 | 19.6 | 13,163 | 17.6 |
| **45-64** | 20,037 | 26.4 | 19,191 | 25.7 |
| **65-74** | 8,418 | 11.1 | 9,553 | 12.8 |
| **75+** | 7,287 | 9.6 | 7,788 | 10.4 |

Mae canran uchel o bobl rhwng 15 a 24 oed ac mae hyn yn cyfateb i grwpiau oedran myfyrwyr Addysg Uwch (AU). Yn ôl yr wybodaeth ddiweddaraf gan y prifysgolion a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) roedd 7,000 o fyfyrwyr addysg uwch llawn amser ym mhrifysgolion Ceredigion yn 2015/16, yn agos i 10% o boblogaeth y sir.

**Grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (Cyfrifiad 2011)**
Mae 2,479 (3.3%) o'r boblogaeth yn perthyn i grwpiau ethnig nad ydynt yn wyn.

**Cyflogaeth a'r Economi**

**Gweithgarwch Economaidd (Hydref 2015 – Medi 2016)**

| People | Ceredigion (numbers aged 16+) | Ceredigion (%) |
|---|---|---|
| Y boblogaeth 16 i 64 oed | 46,300 | 62.1%[1] |
| Yn economaidd weithgar | 34,900 | 69% |
| Yn gyflogedig | 33,900 | 66.9% |
| Yn economaidd weithgar: Yn gyflogedig | 23,900 | 49.8% |
| Yn economaidd weithgar: Yn hunangyflogedig | 9,200 | 16.2% |
| Yn ddi-waith | 1,400 | 3.8% |

*Ffynhonnell: NOMIS*

**Cyfansoddiad yr Aelwydydd**
Roedd 4,478 o bobl (6% o'r boblogaeth) yn byw mewn sefydliadau cymunedol yn ôl Cyfrifiad 2011, a llawer ohonynt yn neuaddau preswyl y prifysgolion.

**Roedd cyfanswm aelwydydd Ceredigion yn 31,562 yn ôl Cyfrifiad 2011**

| | | |
|---|---|---|
| Un person | 10,456 | 33% |
| Un teulu: yn briod, cyplau o'r un rhyw mewn partneriaeth sifil neu'n cydletya | 12,442 | 39% |
| Un teulu: pensiynwyr i gyd | 3,199 | 10% |
| Un teulu: rhiant sengl | 2,503 | 8% |
| Eraill | 2,962 | 9% |

**Tai**
**Deiliadaeth (Cyfrifiaad 2011)**

| | | |
|---|---|---|
| Perchen preswyl | 21,323 | 68% o'r aelwydydd |
| Rhentu preifat | 6,275 | 20% o'r aelwydydd |
| Rhentu cymdeithasol | 3,196 | 10% o'r aelwydydd |

## Iechyd

**Salwch cyfyngys hirdymor**
Dywedodd 7,589 (10%) fod eu bywyd bob dydd yn cael ei gyfyngu llawer, dywedodd 8,436 (11%) fod eu bywyd bob dydd yn cael ei gyfyngu ychydig, a dywedodd 59,897 (79%) nad oedd eu bywyd bob dydd yn cael ei gyfyngu yng Nghyfrifiad 2011

**Iechyd cyffredinol**
Dywedodd 60,138 (79%) eu bod mewn 'Iechyd Da Iawn' neu 'Iechyd Da', dywedodd 10,946 (14%) eu bod mewn iechyd gweddol a dywedodd 4,811 (7%) eu bod mewn 'Iechyd Gwael' neu 'Iechyd Gwael Iawn' yng Nghyfrifiad 2011

**Incwm**
Incwm cyfartalog aelwydydd - tua £30,293 y.f. (Data Paycheck CACI 2016)

**Wales Index of Multiple Deprivation (WIMD) - Income**
Aberteifi - Teifi yw'r unig ardal yng Ngheredigion sydd yn y 10% gwaethaf o blith ardaloedd Cymru o ran incwm.

**Welsh Language**
34,964 yn siaradwyr Cymraeg (47.3% o'r boblogaeth 3 oed +) yn ôl Cyfrifiad 2011.

# Atodiad 5: Disgwyliadau'r Ymgynghoreion yn ystod bob Cam o'r Broses
## (wedi'i groesgyfeirio ag Atodiad 2B)

| Cam | Beth a ddisgwylir gan yr ymgynghoreion | Amserlen |
|---|---|---|
| Cyfranogi cyn adneuo (Rheoliad 14) - Atodiad 2B1 | Hwn yw'r cam lle paratoir llawer o'r seiliau manwl cychwynnol ar ôl asesu'r wybodaeth (gan gynnwys ymchwil cyfredol a gofynnol), pan nodir y materion sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol a'r opsiynau a'r blaenoriaethau strategol.<br><br>Yn benodol gofynnir i gyfranogwyr:<br>• Ymrwymo i'r broses gan gynnwys adeiladu consenswys;<br>• Helpu i greu gweledigaeth ar gyfer y CDLl a strategaeth a ffefrir i'w gyflawni;<br>• Codi materion perthnasol parthed defnyddio tir;<br>• Rhannu a nodi gwybodaeth allweddol (ymchwil) a materion maent yn benodol yn gyfarwydd â nhw i sicrhau sylfaen tystiolaeth diogel ar gyfer y cynllun;<br>• Nodi diffyg gwybodaeth lle gall fod angen mwy o ymchwil;<br>• Cymryd rhan yn y drafodaeth gyda meddwl agored.<br><br>Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys cyfle i enwebu lleiniau penodol o dir (h.y. cyflwyno darpar safleoedd) i'w hystyried ar gyfer cael eu cynnwys yn y CDLl. Mae'r rhan hon o'r cam cyfranogi'n agored i unrhyw un a chaiff ei hysbysebu.<br><br>Dylai ymatebwyr i'r agwedd arbennig hon:<br><br>• Nodi lleoliad y safle, gan gynnig cyfeirnod grid OS a map o'r safle lle bo hynny'n bosib;<br>• Dynodi'r math o ddefnydd tir a fwriedir;<br>• Esbonio sut y mae'r safle'n cwrdd â'r meini prawf a ddarperir gan yr ACLl i sicrhau bod modd barnu bod y lleoliad yn gynaliadwy ac yn cwrdd â gofynion cadernid y CDLl; a<br>• Cydnabod na ddylai'r gwahoddiad i gyflwyno safleoedd gael ei ystyried fel ymrwymiad gan yr ACLl i gynnwys | Mehefin 2018 – Mai 2019 |

| Cam | Beth a ddisgwylir gan yr ymgynghoreion | Amserlen |
|---|---|---|
| | safleoedd o'r fath yn y CDLl. | |
| Ymgynghori Cyhoeddus Cyn Adneuo (Rheoliad 15 ac 16) – Atodiad 2B2 | Hwn yw'r cyntaf o'r ymarferion ymgynghori cyhoeddus ffurfiol fydd yn rhan o'r broses CDLl. Gall unrhyw un gymryd rhan yn ystod y cam hwn.<br><br>Yn benodol mae'n ofynnol i'r sawl sy'n ymateb:<br>• Ymateb o fewn y cyfnod 6 wythnos statudol;<br>• Codi materion perthnasol mewn perthynas â defnydd tir;<br>• Bod yn glir ynghylch y materion penodol maent yn ymateb iddynt;<br>• Paratoi rhesymau dros unrhyw wrthwynebiadau; ac<br>• Awgrymu dulliau/atebion amgen i'r materion maent yn eu gwrthwynebu.<br><br>Bydd y sylwadau'n fwy priodol os cânt eu cyflwyno yng nghyd-destun y profion 'cadernid' a sefydlwyd ar gyfer y CDLl. | Mehefin – Gorffenaf 2019 |
| Adneuo'r Cynigion yn Statudol (Rheoliad 17) – Atodiad 2B3 | Hwn yw'r ail gam o'r ymarferion ymgynghori cyhoeddus ffurfiol fydd yn rhan o'r broses CDLl. Gall unrhyw un gymryd rhan yn ystod y cam hwn.<br><br>Yn benodol mae'n ofynnol i'r sawl sy'n ymateb:<br><br>• Cynnig sylwadau dilys o fewn y cyfnod 6 wythnos statudol;<br>• Bod yn glir ynghylch y materion penodol maent yn ymateb iddynt;<br>• Paratoi rhesymau dros unrhyw wrthwynebiadau; ac<br>• Awgrymu dulliau/atebion amgen i'r materion maent yn eu gwrthwynebu<br>Bydd y sylwadau'n fwy priodol os cânt eu cyflwyno yng nghyd-destun y profion 'cadernid' a sefydlwyd ar gyfer y CDLl. | Mai - Mehefin 2020 |
| Cyhoeddi â'r Cyflwyniadau Adneuo (Rheoliad19, fel y'i diwygiwyd<br><br>Atodiad 2B4 | Anogir y sawl sy'n cynnig sylwadau i dderbyn yr wybodaeth a'i nodi.<br>Mae newidiadau i'r Rheoliadau'n golygu nad oes ymgynghoriad ar wahân ar gyfer 'Safleoedd Amgen' h.y. safleoedd a gyflwynwyd fel ymateb i'r CDLl. | Mehefin - Rhagfyr 2020 |
| Cyflwyno'r CDLl i'w Archwilio (Rheoliad 22) – | Hwn yw'r cais ffurfiol i'r Arolygydd Cynllunio i ystyried y CDLl. | Rhagfyr 2020 |

| Cam | Beth a ddisgwylir gan yr ymgynghoreion | Amserlen |
|---|---|---|
| Atodiad 2B5 | Anogir y sawl sy’n cynnig sylwadau i dderbyn yr wybodaeth a’i nodi. | |
| Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23) – Atodiad 2B6 | Hwn yw’r Archwiliad Cyhoeddus ffurfiol gan yr Arolygydd Cynllunio Annibynnol a fydd yn penderfynu:<br>• Pa faterion sydd angen eu trafod i brofi cadernid y cynllun; a<br>• Pwy ddylid eu gwahodd i sesiynau penodol yr archwiliad (er y bydd gan bob gwrthwynebydd yr hawl i ymddangos a chael eu clywed).<br><br>Anogir gwrthwynebwyr i:<br>• Wneud eu gorau i fynd i bob cyfarfod cyn yr Archwiliad;<br>• Cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn unol ag amserlen yr Archwiliad; a<br>• Rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd os na allant fod yn bresennol yn yr Archwiliad ar yr adeg benodedig. | Ionawr – Medi 2021 |

# Atodiad 6: Asesu Risg

| **Risg** | **Tebygolrwydd/Effaith** | **Cam Gweithredu** | **Rheoli** |
|---|---|---|---|
| Adnoddau ac Argaeledd Staff | Canolig/Canolig | Cynllun wrth gefn | Monitro a hysbysebu swyddi gwag cyn gynted ag y bo modd ar ôl i rywun adael. Recriwtio staff dros dro ar gyfer gwaith arbenigol/adegau prysur. Gofyn am help gan dimau/awdurdodau cynllunio eraill a rhoi blaenoriaeth i recriwtio pan fo swyddi'n wag neu/ac ystyried defnyddio ymgynghorwyr. |
| Risg o oedi, costau ychwanegol a chymhlethdod yn gysylltiedig â Chyfarwyddyd Gweinidogol i Weithio ar y cyd | Canolig / Uchel | Monitro | Monitro a thrafod gyda Llywodraeth Cymru fel bo angen. |
| Argaeledd adnoddau ariannol i wneud gwaith mewn meysydd penodol. | Isel/Uchel | Lleihau | Cronfa wrth gefn ar gael i Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd Dogfen Dechrau'r Prosiect a Chynlluniau Camau'n pennu cyllidebau angenrheidiol ar gyfer pob Cam, a bydd angen eu monitro a'u diweddaru'n rheolaidd |
| Os bydd newid mewn deddfwriaeth, polisi neu ganllawiau rhyngwladol neu genedlaethol, mae'n bosib y bydd angen gweithdrefnau neu waith newydd y bydd yn rhaid eu hymgorffori yn y CDLl a'r AC/AAS. | Canolig/Canolig | Lleihau | Angen monitro'r sefyllfa a chymryd rhan yn yr Ymgynghori.<br><br>Cydnabod efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith a allai beri i'r rhaglen lithro'n ôl. Mae angen nodi hyn yn gynnar ac ystyried beth fyddai'r ffordd orau o wneud hyn (e.e. adnoddau, staff ychwanegol?) |

| Risg | Tebygolrwydd/Effaith | Cam Gweithredu | Rheoli |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno CDSau gorfodol o dan ddeddfwriaeth (llywodraethu rhanbarthol) Cymru arfaethedig | Canolig | Monitro / lobïo | Efallai y bydd angen Trefniadau Ôl-ddilynol Dros dro i gyflawni'r CDLl Newydd |
| Cyflawni strategaethau a chynlluniau eraill | Canolig | Lleihau | Efallai y bydd gan gynlluniau a strategaethau eraill sydd y tu hwnt i reolaeth yr ACLl, ond a allai effeithio ar y CDLl, amserlenni gwahanol o ran eu cyflenwi neu'u hadolygu. Gallai'r Awdurdod Lleol leihau unrhyw oblygiadau annisgwyl trwy fod yn ymwybodol o amserlenni cyflenwi cynlluniau/strategaethau o'r fath a chynorthwyo i'w cynhyrchu. Os cyfyd problemau na ragwelwyd mohonynt yn y CDLl (e.e. am eu bod wedi codi'n rhy hwyr ym mhroses y CDLl) – bydd angen rhoi sylw iddynt trwy adolygu'r CDLl. |
| Amserlen heriol i baratoi'r CDLl Newydd o fewn amserlen y CDLl presennol ac o fewn gofynion Amserlen y Cytundeb Cyflenwi. | Canolig/Uchel | Lleihau | Bydd angen amserlen fanwl ar gyfer pob cam o'r CDLl a bydd angen rheoli'r prosiect yn ofalus wedi hynny er mwyn cadw ati.<br><br>Cynnwys peth hyblygrwydd (3 mis rhag llithro'n ôl).<br><br>Ystyried rhagor o adnoddau os oes angen. |
| Oedi o ran argraffu neu gyfieithu | Isel/uchel | Monitro | Sicrhau digon o rybudd o ran ceisiadau argraffu/cyfieithu. |
| Gallu'r Asiantaethau Allanol i gyfrannu at y CDLl, yr Arfarniad Cynaladwyedd (AAS) a'r Ymchwiliad. | Canolig/Uchel | Lleihau | Ymgynghori â'r cyrff hyn cyn gynted ag y bo modd, yn arbennig felly ynghylch amserlen y Cytundeb Cyflenwi. |

| Risg | Tebygolrwydd/Effaith | Cam Gweithredu | Rheoli |
|---|---|---|---|
| Yr Arolygiaeth Gynllunio'n methu â Chyflawni'r Amserlen ar gyfer Archwilio a Chyflwyno Adroddiad. | Isel/Canolig | Lleihau | Ymgynghori â'r Arolygiaeth a Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo modd, yn enwedig o ran yr amserlen. Efallai y bydd angen targedu rhagor o adnoddau e.e. 2 Arolygydd. Hefyd, dylai mynd ati i adeiladu consensws yn gynnar leihau nifer y gwrthwynebiadau sydd angen eu hystyried yn yr Ymchwiliad. |
| Diffyg Consensws Corfforaethol a Chefnogaeth gan Swyddogion ac Adrannau eraill o ran Llunio'r Sylfaen Tystiolaeth, Astudiaethau Cefndir, y CDLl a'r CCA. | Canolig/Uchel | Atal | Mae angen sicrhau cefnogaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad corfforaethol i'r CDLl trwy gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd ffurfiol. |
| Yr Arolygydd yn penderfynu bod y CDLl neu'r Cytundeb Cyflenwi'n "Sylfaenol Anghadarn" ac mae'n rhaid tynnu'r CDLl yn ei ôl. | Isel/Uchel | Atal | Mae angen cydweithio'n agos gyda LIC a'r Arolygiaeth Gynllunio a dilyn polisïau a chyfarwyddyd LIC ar lunio CDLl; gan sicrhau yn arbennig bod y CDLl wedi'i seilio ar sylfaen tystiolaeth cadarn a system o ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned sydd wedi'i harchwilio'n dda. |
| Heriau Cyfreithiol (CDLl neu AC/AAS). | Isel/Uchel | Atal | Sicrhau bod proses y CDLl a'r AC/AAS yn cydymffurfio â Deddfau Cynllunio, Rheoliadau a Chyfarwyddyd y Cynulliad. |
| Risgiau sy'n ymwneud â'r strwythur sydd gan y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau/cylchoedd | Isel/Canolig | Lleihau | Lluniwyd yr amserlen i osgoi gorfod gwneud penderfyniadau mawr pan fo etholiadau. Mae'r Aelodau wedi cytuno y bydd modd i'r Cabinet (sy'n cwrdd bob pythefnos) wneud penderfyniadau ac |

| **Risg** | **Tebygolrwydd/Effaith** | **Cam Gweithredu** | **Rheoli** |
|---|---|---|---|
| cyfarfodydd/etholiadau | | | anfon argymhellion at y Cyngor Llawn ar gyfer penderfyniad ar adegau allweddol. Bydd yr Aelodau hefyd yn rhan o weithgorau amrywiol (ar lefel polisi ac aneddleoedd), gan gynnwys yr Aelod Cabinet a'r Gweithgor. |
| Risgiau sy'n ymwneud â diddymu grwpiau ffocws a grwpiau rhanddeiliaid | Isel/Canolig | Lleihau | Mae'n beth eithaf cyffredin diddymu partneriaethau/grwpiau. Gan y bydd y CDLl yn dibynnu ar nifer o grwpiau sy'n bodoli eisoes fel sail ar gyfer nifer o grwpiau ffocws a grwpiau rhanddeiliaid y CDLl, byddai eu diddymu'n effeithio ar y broses. Fodd bynnag, pe bai grwpiau o'r fath yn cael eu diddymu ac yn codi ar ffurf arall drwy eu cylch gwaith presennol, yna pe byddai'r gynrychiolaeth sydd ar y grwpiau'n dal i gyflawni anghenion y CDLl, byddai'r grwpiau newydd hyn yn cael eu defnyddio. |
| Argyfwng e.e. ffliw pandemig | Isel/Uchel | Monitro | Mae cynllunio parhad busnes yn rhywbeth y mae'r Awdurdod Lleol yn pryderu yn ei gylch. Mae'n bosib petai argyfwng yn y Sir y byddai gwasanaethau anhanfodol yn peidio â gweithio am y tro. Er enghraifft, petai ffliw pandemig, yna byddai disgwyl i staff y gwasanaethau anhanfodol helpu gyda'r gwasanaethau hanfodol a allai fod yn brin o staff oherwydd y ffliw. Efallai y byddai'r CDLl yn cael ei ystyried yn wasanaeth anhanfodol yn y tymor byr. Fodd bynnag, byddai'n dibynnu lle roedd y broses gynllunio arni ar y pryd. |